Rhif: WG53913

# Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant Adroddiad Etifeddiaeth

Tymor y Chweched Senedd

2021 – 2026

Wedi'i gyhoeddi: 18 Mawrth 2026

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg hefyd / This document is also available in Welsh
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

# Rhagair y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol



Mae'n bleser mawr gennyf gyflwyno'r adroddiad etifeddiaeth ar gyfer Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant, a gynhaliwyd yn ystod tymor y Chweched Senedd rhwng 2021 a 2026. Cafodd y broses o gyflawni'r Rhaglen ei goruchwylio gan Grŵp Cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid, a gadeiriwyd i ddechrau gan Jonathan Griffiths, cyn Gyfarwyddwr Trawsnewid ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, ac yn fwyaf diweddar gan Helen-Mary Jones o Voices for Care Cymru.

Hoffwn ddechrau drwy gydnabod gwaith fy nghydweithiwr, Julie Morgan AS, a helpodd i lywio system y mae plant a theuluoedd yn ganolog iddi yn ystod ei chyfnod fel Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol. Bydd y sylfeini a osodwyd ganddi a'r gwelliannau a hyrwyddwyd ganddi o fudd i genedlaethau'r dyfodol. Rydym yn ddiolchgar iawn o hyd am bopeth a gyflawnwyd ganddi, a'i hetifeddiaeth.

Yn ystod fy nghyfnod fel Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, rwyf wedi ceisio adeiladu ar y gwaith hwn a helpu i wireddu gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, sef bod mwy o blant yn cael eu cefnogi i aros gyda'u teuluoedd a bod llai o blant a phobl ifanc yn ymuno â'r system gofal. Rydym am i bobl ifanc dreulio cyn lleied o amser â phosibl mewn gofal, yn unol ag anghenion y person ifanc. Pan fydd plant mewn gofal, rydym am iddynt aros mor agos â phosibl at eu cartref er mwyn iddynt allu parhau i fod yn rhan o'u cymuned – rhwydwaith y plentyn. Rydym am weld Cymru lle mae pob plentyn yn gwybod bod ganddo hawliau, yn deall yr hyn y maent yn ei olygu, ac yn cael cymorth i'w harfer. Mae'r hyn sydd gan bobl ifanc i'w ddweud, a'u barn, yn bwysig." Mae hyn yn cyd-fynd ag adroddiad y Comisiynydd Plant: Y Ffordd Gywir: Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Gofal Cymdeithasol yng Nghymru

Mae'r Rhaglen Trawsnewid yn seiliedig ar dair elfen allweddol – diwygio radical, darparu gwasanaethau yn y dyfodol, a'r system gyfan yn cydweithio. Mae'n seiliedig ar lais plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o wasanaethau plant, ar hyn o bryd neu yn y gorffennol, ac nid oes enghraifft well o hynny na'r Uwchgynadleddau Profiad o Ofal, a gynhaliwyd bob blwyddyn ers 2022. Mynychais fy Uwchgynhadledd gyntaf ym mis Mai 2025, ac mae gwerth eistedd mewn ystafell gyda'r bobl ifanc a chlywed yn uniongyrchol am eu profiadau, yn amhrisiadwy. Byddwch yn darllen mwy am yr Uwchgynadleddau yn yr adroddiad hwn.

Yn ystod tymor y Senedd hon, cynhaliodd Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ymchwiliad i ddiwygio radical ar gyfer gwasanaethau plant. Gellir dod o hyd i'r adroddiad dilynol, ***Os nad nawr, pryd?*** ar dudalen we y Pwyllgor: Gwasanaethau i blant sydd wedi bod mewn gofal: archwilio diwygio radical. Atgyfnerthodd gwaith y Pwyllgor gyfeiriad ein Rhaglen a phwysigrwydd ei chyflawni.

Yn yr adroddiad hwn, byddwch yn darllen am y cynnydd a wnaed yn ystod y Tymor hwn ac am rai enghreifftiau o'r hyn y mae'r Rhaglen wedi ei gyflawni, gan gynnwys:

- Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 ('Deddf 2025'), gan olygu mai ni oedd y wlad gyntaf yn y DU i wahardd elw o ofal plant yng Nghymru.
- Yr Uwchgynadleddau Profiad o Ofal a'r Datganiad a'r Weledigaeth ar gyfer Diwygio Radical, sef y cyntaf o'u bath yn y DU.
- Datblygu a chyhoeddi'r Siarter Rhianta Corfforaethol a'i 11 o egwyddorion rhianta corfforaethol a ddatblygwyd ar y cyd â phobl ifanc.
- Cyflwyno gwasanaethau eirioli i rieni ledled Cymru.
- Creu Maethu Cymru, sefydliad cenedlaethol a wnaeth alluogi negeseuon cyson, symleiddio prosesau recriwtio, a meithrin ymdeimlad cryfach o gymuned ymhlith gofalwyr.

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, rydym yn cydnabod bod mwy o waith i'w wneud o hyd, ac mae'r adroddiad yn nodi argymhellion gan y Grŵp Cyflawni ar gyfer tymor y Senedd nesaf, y dylech eu darllen a'u hystyried. Rydym wedi cymryd camau breision ar y daith hon a fydd yn parhau yn ystod tymor y Senedd nesaf, a thu hwnt.

Hoffwn gloi drwy ddiolch i'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid am ei waith ac, yn bwysicaf oll, i'r bobl ifanc sydd wedi rhannu eu llais. Rydym wedi gwrando arnynt, a byddwn yn parhau i weithredu.

**Dawn Bowden AS**
**Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**

> Felly, mae angen i Gymru ein cefnogi ac ymddiried ynom i'n helpu i dyfu ac i ddatblygu'n oedolion hapus"
>
> Person ifanc â phrofiad o fod mewn gofal – Chwe 2025

# Y Grŵp Cyflawni Trawsnewid – Rhagair y Cadeirydd



Braint enfawr fu bod yn rhan o ymgyrch y Llywodraeth i gyflawni diwygiadau radical i blant a phobl â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd dros dymor y Senedd hon; drwy gefnogi pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i gymryd rhan yn y broses i ddechrau ac yna, dros y 15 mis diwethaf, fel Cadeirydd Annibynnol y Grŵp Cyflawni Trawsnewid.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'm cyd-aelodau yn y Grŵp, gan gynnwys y bobl ifanc, a phawb sydd wedi cymryd rhan ym mhob agwedd ar waith y Grŵp. Mae eich cyfraniad cyson ac ystyrlon wedi bod yn allweddol i'n llwyddiant hyd yma. Rwy'n ddiolchgar iawn hefyd i dîm staff Llywodraeth Cymru, sydd wedi dangos cefnogaeth eithriadol i waith y Grŵp.

Mae proses yr Uwchgynhadledd Diwygio Radical wedi torri tir newydd. Mae Gweinidogion Cymru o wahanol bortffolios wedi cyfarfod â phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ar bedwar achlysur dros bedair blynedd. Maent wedi gwrando arnynt, wedi ymateb i'w pryderon, ac wedi rhoi adborth iddynt ar y camau gweithredu a gymerwyd. Mae Gweinidogion Cymru wedi sicrhau eu bod yn atebol i'r gymuned sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac wedi gosod disgwyliadau clir ar y rhai sy'n cynllunio ac yn darparu gwasanaethau i wneud yr un peth. Mae'r Datganiad Diwygio Radical – a ddiwygiwyd ddiwethaf yn ystod yr Uwchgynhadledd ym mis Mai 2025 – yn nodi gweledigaeth glir ar gyfer gwedd a naws gwasanaethau wedi'u diwygio'n radical. Mae dros 100 o bobl ifanc wedi cymryd rhan yn yr Uwchgynadleddau yn uniongyrchol, ac mae llawer mwy wedi cyfrannu drwy ymgyngoriadau. Mae lefel yr ymrwymiad y mae Gweinidogion wedi ei ddangos yn ddigynsail, ac yn briodol. Wedi'r cyfan, ein plant ni ydynt. Fel cenedl, rydym wedi penderfynu, er mwyn eu diogelwch eu hunain, i'w gwahanu oddi wrth eu teuluoedd, a gofalu amdanynt ein hunain. Mae'n ddyletswydd arnom i roi'r un gofal a chymorth iddynt â'r hyn rydym yn ei roi i'n plant ein hunain. Gan weithredu ar ran pobl Cymru, mae Gweinidogion Cymru wedi dangos eu bod yn deall hyn yn llwyr, ac ni allaf orbwysleisio faint roedd hynny'n ei olygu i bobl ifanc.

Wrth gwrs, dim ond y cam cyntaf yw datblygu gweledigaeth. Mae angen ymrwymiad, adnoddau ac amser i wireddu'r weledigaeth honno. Mae angen y dewrder i herio diddordebau personol. Ac yn fy marn i, mae'r holl bethau hyn yn nodweddu'r broses diwygio radical, y mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid wedi chwarae rôl arweiniol ynddi. Mae arweinwyr yn y sector wedi chwarae rhan gadarnhaol. Maent wedi parchu lleisiau plant a phobl ifanc ac wedi croesawu'r Weledigaeth a nodwyd yn y Datganiad. Mae'r ymgysylltu cadarnhaol hwn ym mhob rhan o'r sector wedi bod yn allweddol i'r newid y mae'r Grŵp wedi gallu helpu i'w gyflawni. Bydd yn hanfodol i'r Llywodraeth nesaf gynnal yr ymgysylltu hwn er mwyn cynnal y cynnydd tuag at ddiwygio radical.

Yn ogystal ag ymgysylltu â Gweinidogion yn yr Uwchgynadleddau, mae pobl ifanc hefyd wedi cyfrannu at y broses drawsnewid sydd ei hangen i wireddu'r Weledigaeth.

Maent wedi siarad mewn cynadleddau a digwyddiadau ac yn helpu i ddatblygu arferion da lleol. Maent wedi bod yn rhan o gyfarfodydd y Grŵp Cyflawni Trawsnewid a'r Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol, wedi ymgynghori â phobl ifanc eraill ar y pynciau dan sylw ac wedi darparu cymorth adeiladol a her drwyddi draw. Yn ogystal â thrawsnewid y ffordd y mae gweithwyr proffesiynol yn ymgysylltu, byddwn yn dadlau bod cael pobl ifanc yn yr ystafell yn newid y ffordd rydym yn meddwl ac yn ymddwyn hefyd. Fel Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Trawsnewid, rwy'n ddiolchgar iawn iddynt.

Mae'r Adroddiad hwn yn nodi'r hyn a wnaed yn ystod tymor y Senedd hon i gyflawni diwygio radical. Nid oes angen imi restru'r holl gyflawniadau yma. Mae'r cynnydd tuag at gyflawni holl ymrwymiadau allweddol y Rhaglen Lywodraethu yn dweud y cyfan. Fodd bynnag, hoffwn dynnu sylw'n benodol at y ddeddfwriaeth i ddileu elw o ofal plant. Mae'n rhaid canmol y cadernid a ddangoswyd yn wyneb gwrthwynebiad cryf iawn. Byddwn yn annog y Llywodraeth nesaf i integreiddio'r ymrwymiad i ddileu elw yn llawn i'r agenda drawsnewid ehangach, ac i gynnal y momentwm ar gyfer ei gyflawni'n llawn.

Mae dau is-grŵp y Grŵp Cyflawni Trawsnewid wedi gwneud gwaith gwych. Mae'r Ffrwd Waith Data a Metrigau wedi gwneud cynnydd mawr tuag at nodi'r data sydd eu hangen arnom i fonitro'r broses o gyflawni diwygio radical. Mae hyn yn allweddol. Rwy'n ddiolchgar iawn i swyddogion Llywodraeth Cymru am eu gwaith cadeirio arbenigol.

Mae'r Is-grŵp Ymyrraeth Gynnar ac Atal, a gadeirir gan Sarah Crawley o Barnardo's, wedi llwyddo i ddatblygu'r Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal Cenedlaethol cyntaf, nid yn unig yng Nghymru, ond hyd y gwyddom, y byd. Mae'n nodi'r cymorth a ddylai fod ar gael i fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd ym mhobman yng Nghymru pan fydd ei angen arnynt. Rwy'n ddiolchgar iawn i Sarah am ei harweinyddiaeth yn y maes cymhleth hwn. Nawr, mae angen i bob un ohonom fynd ati i'w gyflawni.

Ar ddiwedd yr Adroddiad hwn, ceir cyfres o argymhellion ar gyfer y Llywodraeth nesaf. Er bod llawer wedi'i gyflawni eisoes, mae llawer i'w wneud o hyd i gyflawni diwygio radical. Wrth gwrs, mater i'r Llywodraeth newydd fydd gosod ei rhaglen a'i blaenoriaethau ei hun. Wrth osod y blaenoriaethau hynny, hyderwn y bydd yn ystyried safbwyntiau arweinwyr proffesiynol o bob rhan o'r sector a gynrychiolir yn y Grŵp Cyflawni Trawsnewid ac, yn anad dim, lleisiau'r arbenigwyr gwirioneddol – plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal eu hunain. Er mwyn i Gymru brofi ei hun fel gwlad sydd wir yn parchu hawliau, yn unol â'n hymrwymiadau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, rhaid inni barhau i sicrhau bod hawliau'r rhai y mae angen cymorth y Llywodraeth arnynt fwyaf – plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal – yn cael eu gwireddu'n llawn. Fel aelodau o'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid, yn weithwyr proffesiynol ac yn bobl ifanc – rydym yn barod i gefnogi'r Llywodraeth nesaf wrth adeiladu ar etifeddiaeth yr ydym yn falch ohoni a sicrhau ei bod yn cael ei gwireddu'n llawn.

**Helen-Mary Jones**
**Cadeirydd y Grŵp Cyflawni Trawsnewid**

# Safbwynt Pobl Ifanc

Ar ran yr holl Lysgenhadon Ifanc â Phrofiad o fod mewn Gofal, hoffem ddechrau drwy nodi pa mor falch ydym o fod wedi cydweithio i helpu i ddiwygio gwasanaethau i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a'u teuluoedd. Hoffem ddiolch yn fawr i'r holl bobl ifanc sydd wedi cymryd rhan, drwy lenwi arolygon, dod i gyfarfodydd, a siarad mewn digwyddiadau. Mae pawb wedi rhoi mor hael o'u hamser ac wedi gwneud cymaint o ymdrech, gan rannu eu profiadau eu hunain a dysgu oddi wrth ei gilydd er mwyn inni allu darbwyllo pawb bod angen gwneud newidiadau mawr. Ni fu bob amser yn hawdd, ond mae wedi dwyn ffrwyth.

Hoffem hefyd ddiolch i bawb sydd wedi gweithio gyda ni. Y Gweinidogion sydd wedi gwrando ac wedi gweithredu; timau'r Gweinidogion sy'n gweithio i gyflawni addewidion y Gweinidogion; y gweithwyr proffesiynol sydd wedi cydweithio â ni yn y Grŵp Cyflawni Trawsnewid ac mewn cyfarfodydd eraill, sydd wedi ein trin â pharch; a'r tîm yn Voices from Care Cymru a ddaeth â ni at ein gilydd ac sydd wedi ein cefnogi bob cam o'r ffordd. Diolch i bob un ohonoch.

Pan gawsom ein gwahodd gan Voices from Care Cymru i fod yn rhan o'r Uwchgynhadledd Diwygio Radical, nid oedd pawb yn sicr y byddai'n gweithio. A fyddai'r bobl bwysig hyn – Gweinidogion Cymru a Phrif Weinidog Cymru – o ddifri yn rhoi cymaint o'u hamser i wrando arnom? A fyddent yn ein credu? Yn rhy aml, nid oes neb yn credu plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. A fyddent yn gwneud rhywbeth ynghylch yr hyn y byddem yn ei ddweud wrthynt? Roedd rhai ohonom wedi bod yn rhan o ymgyngoriadau blaenorol nad oeddent wedi newid dim.

Ond roedd hi'n amlwg o'r tro cyntaf y gwnaethom gyfarfod â'r Gweinidogion yn yr Uwchgynhadledd gyntaf yn 2022 fod gennym gyfle gwirioneddol i helpu i wneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Gwnaethant dreulio'r diwrnod cyfan yn ein cwmni. Cafodd pawb eu trin yn yr un ffordd. Gwnaethant wrando o ddifri ar yr hyn y gwnaethom ei ddweud. Cawsant eu synnu gan rai o'r pethau y gwnaethom ddweud wrthynt amdanynt. Gwnaethant sylweddoli nad oedd rhai o'r pethau roeddent yn meddwl eu bod eisoes wedi'u newid yn gweithio, neu nad oeddent yn gweithio i bawb. Roeddent yn teimlo yr un mor rhwystredig â ni wrth glywed bod profiadau plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn amrywio'n fawr, yn dibynnu ar ble maent yn byw yng Nghymru. Roedd yn ddiwrnod bythgofiadwy i bob un ohonom a oedd yno. Erbyn inni adael, roeddem wedi cytuno ar Ddatganiad, gweledigaeth ar gyfer gwedd a naws gwasanaethau wedi'u diwygio'n sylweddol, a chyfres o addewidion i gydweithio i gyflawni newid parhaus.

Mae cymaint wedi digwydd ers mis Rhagfyr 2022.

Rydym wedi cynnal dwy Uwchgynhadledd Genedlaethol arall yn ogystal ag Uwchgynhadledd Ranbarthol yn y gogledd.
Rydym wedi bod i lawer o gyfarfodydd â thîm Llywodraeth Cymru a gweithwyr proffesiynol eraill, gan eu cefnogi a'u herio wrth iddynt weithio i wireddu'r weledigaeth yn y Datganiad. Rydym wedi gweithio ar rianta corfforaethol ac ar waith trawsnewid ehangach drwy'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid. Rydym wedi siarad mewn cynadleddau a digwyddiadau ac yn rhoi cyngor i sefydliadau ar sut i gefnogi pobl ifanc i gymryd rhan.

Rydym wedi cyfarfod â rhagor o blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ac wedi llwyddo i'w cynnwys yn y tîm o Lysgenhadon Ifanc er mwyn iddynt allu rhannu eu safbwyntiau â Gweinidogion Cymru. Mae gennym bellach Ddatganiad diwygiedig y gwnaethom gytuno arno â'r Gweinidogion ym mis Mai y llynedd.

Roeddem yn gwybod o'r dechrau na allai pethau newid dros nos. Ond mae llawer wedi newid yn barod. Mae'r Adroddiad hwn yn esbonio hynny'n fanwl, ac mae'n braf gweld bod cymaint wedi'i wneud. Mae gennym rai uchafbwyntiau. Pan wnaethom ddweud wrth y Gweinidog fod rhai awdurdodau lleol yn dweud wrth ofalwyr maeth na allent gofleidio plant, ysgrifennodd at yr awdurdodau yn syth yn dweud wrthynt am newid eu cyngor. Mae gan ofalwyr maeth bellach broffiliau un dudalen fel bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn gallu cael ychydig o wybodaeth amdanynt cyn iddynt gyfarfod â nhw, a hynny am ein bod wedi gofyn amdanynt.

Credwn fod y Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal Cenedlaethol newydd y mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid wedi ei lunio yn bwysig iawn. Mae'n ymwneud â sicrhau bod plant a theuluoedd yn cael cymorth pan fydd ei angen arnynt. Mae rhai ohonom yn sicr, pe bai'r cymorth hwnnw wedi bod yno i ni, y gallem fod wedi aros gyda'n teuluoedd. Mae rhai ohonom yn gwybod, pe bai'r cymorth hwnnw wedi bod ar gael iddynt, na fyddent wedi colli eu plant, ac y byddai eu teuluoedd wedi aros gyda'i gilydd. Nid ydym wedi gallu dod o hyd i Fframwaith arall o'r fath yn unrhyw le yn y byd. Dyma gyfle i Gymru wneud rhywbeth gwych. Mae'n rhaid inni achub ar y cyfle hwn.

Ac un o'r prif bethau – dileu elw o ofal. Ymgyrchodd pobl ifanc yn galed i atal cwmnïau preifat rhag gwneud elw o'r angen am ofal. Bu'n gyfnod cyffrous iawn wrth weld y Gweinidog yn gosod y gyfraith gerbron y Senedd, gweld pobl ifanc yn rhoi tystiolaeth i Bwyllgor y Senedd er mwyn gofyn i'r Pwyllgor gefnogi'r gyfraith, ac yna'i gweld yn dod i rym.

Mae hon yn gyfraith a wnaed ar ein cyfer ni. Mae'n addewid a gyflawnwyd. A phan fyddwn yn siarad am hyn â phobl o wledydd eraill, rydym yn ymfalchïo yn y ffaith bod Cymru yn gweithredu o ddifri dros ei phlant a'i phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal, drwy ein Gweinidogion.

Ond mae llawer i'w wneud o hyd. Mae angen i'r Llywodraeth newydd a etholir ym mis Mai barhau i gydweithio â ni, er mwyn adeiladu ar yr hyn sydd eisoes wedi'i wneud, a gwneud mwy. Er enghraifft, rydym yn poeni ei bod yn cymryd gormod o amser i ddileu elw o ofal. Ein gobaith yw y bydd y Llywodraeth nesaf yn gallu cyflymu pethau. Ac os bydd hynny'n golygu gwario rhagor o arian, yna dylai wneud hynny.

Mae'n rhaid i'r Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal Cenedlaethol weithio er budd pob plentyn, person ifanc a theulu ym mhobman yng Nghymru. Bydd yn rhaid i'r Llywodraeth newydd sicrhau bod hyn yn digwydd. Credwn y gallai fod angen cyfraith newydd er mwyn gwneud hynny.

Ac mae gennym syniadau a phryderon newydd y byddwn am eu trafod â'r Gweinidogion newydd. Bob tro rydym yn cyfarfod â phobl ifanc newydd sydd â phrofiad o fod mewn gofal, rydym yn dysgu mwy am yr hyn y mae angen ei newid.

Er enghraifft, mae'r ffordd y mae rhai pobl ifanc yn cael eu hatal yn gorfforol mewn cartrefi gofal yn peri pryder mawr i ni. Ac rydym am wybod sut y bydd y Llywodraeth newydd yn sicrhau na fydd pobl ifanc sy'n gadael gofal yn byw mewn tlodi.

Un peth rydym yn gofyn i'r Llywodraeth newydd ei wneud yw sicrhau bod Prif Weinidog newydd Cymru a holl Weinidogion Cymru yn cyfarfod â ni cyn gynted â phosibl fel y gallwn eu helpu i ddeall y sefyllfa ac ennyn hyder. Gwyddom y bydd ganddynt eu syniadau a'u blaenoriaethau eu hunain. Rydym yn gobeithio'n fawr y bydd y gymuned sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn un o'r blaenoriaethau hynny, ac y byddant yn neilltuo amser i ni. Ein gobaith yw y byddant am gefnogi'r Datganiad Diwygio Radical ac adeiladu arno gyda ni.

Gwyddom fod llawer o bobl ledled Cymru yn gweithio'n galed i wireddu'r weledigaeth yn y Datganiad. Ond rydym yn ansicr a yw pawb y mae angen iddynt ymrwymo iddi wedi gwneud hynny'n llawn. Er enghraifft, pan wnaethom ysgrifennu at brif weithredwr pob awdurdod lleol yn gofyn sut roeddent yn cynnwys plant â phrofiad o fod mewn gofal mewn penderfyniadau am rianta corfforaethol, cawsom ymateb gan naw ohonynt, sy'n golygu nad ymatebodd 13 ohonynt. Nid yw hyn yn dderbyniol yn ein barn ni, yn enwedig gan ein bod wedi cysylltu â nhw ar gais y Gweinidog.

Rydym yn aml yn clywed am atebolrwydd mewn cyfarfodydd. I ni, mae hynny'n golygu bod yn rhaid i rywun gael ei ddwyn i gyfrif os na chaiff rhywbeth ei wneud neu ei wneud yn iawn. Rydym wedi gweithio gyda phobl arbennig drwy'r broses diwygio radical sy'n gwneud pethau gwych. A phan fydd angen gwneud newidiadau mawr, rydym yn cytuno ei bod yn bwysig gweithio gyda phobl a'u cefnogi i wneud y newidiadau hynny. Ond mae'r Datganiad yn nodi'n glir fod yn rhaid i blant a phobl ifanc ym mhobman yng Nghymru gael yr un hawliau a'r un cymorth, a gwyddom nad yw hynny'n digwydd eto.

Credwn y bydd yn rhaid i'r Llywodraeth newydd – os bydd yn penderfynu parhau â'r broses diwygio radical – ystyried yn ofalus beth i'w wneud os na fydd cefnogi pobl a'u hannog i wneud newidiadau yn dwyn ffrwyth. Credwn y gallai fod angen cyfreithiau newydd.

Beth bynnag fydd yn digwydd, mae pob un ohonom yn barod i barhau i weithio gyda'r Llywodraeth newydd a'r gweithwyr proffesiynol. Rydym yn falch o'r hyn sydd eisoes wedi'i wneud, ac rydym yn gwybod y gall Cymru wneud mwy byth.

**Melissa Noot**
**Amiee Lessauter**
**Georgia Toman**

**Ar ran y Llysgenhadon Ifanc â Phrofiad o fod mewn Gofal**

# Cynnwys


**Diben yr Adroddiad Etifeddiaeth** 9

**Enghreifftiau o weithgarwch ehangach sydd wedi cefnogi'r Rhaglen Trawsnewid** 10

**Y Rhaglen Trawsnewid a Llywodraethu** 15

**Cyflawni:**

Ffrydiau gwaith y Rhaglen Trawsnewid: Data a Metrigau 17

Ymyrraeth Gynnar ac Atal 18

**Ymrwymiadau'r Rhaglen Lywodraethu:**

1. Archwilio'r broses o wneud diwygiadau radical i wasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal 19
2. Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor y Senedd nesaf. 24
3. Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. 27
4. Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel rhiant corfforaethol. 30
5. Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system gofal. 35
6. Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar ffiniau gofal. 38
7. Etifeddiaeth Gofal – Cefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru 40
8. Maethu Cymru – Atgyfnerthu Maethu Cyhoeddus yng Nghymru 44

**Meysydd polisi eraill:**

Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol 49

Gofal gan Berthynas – Datblygu Trefniadau o fewn y Teulu yn hytrach na throi at y System Gofal 54

**Casgliadau ac argymhellion** 57

# Diben yr adroddiad etifeddiaeth

Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2021-2026 yn cynnwys wyth ymrwymiad, a lywiodd y weledigaeth ar gyfer trawsnewid Gwasanaethau Plant mewn ffordd radical.   Nod yr ymrwymiadau hyn oedd sicrhau newid ym mhob rhan o'r system yng Nghymru.

1. Archwilio'r broses o wneud diwygiadau radical i wasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.
2. Dileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal yn ystod tymor y Senedd nesaf.
3. Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol.
4. Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel 'rhiant corfforaethol'.
5. Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system gofal.
6. Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar ffiniau gofal.
7. Parhau i gefnogi a chynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches.
8. Cefnogi cynllun cenedlaethol Maethu Cymru.

Mae'r Rhaglen wedi bod ar waith dros dymor y Senedd hon (2021-2026), ac fel y nodwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae wedi'i chefnogi gan Grŵp Cyflawni traws-sector, wedi'i gadeirio'n fwyaf diweddar gan Helen-Mary Jones. Mae aelodaeth eang y Grŵp wedi cynnwys yr holl arweinwyr ac asiantaethau allweddol sy'n rhan o fywydau plant â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys gwasanaethau plant awdurdodau lleol, y trydydd sector, y Comisiynydd Plant a chynrychiolwyr o'r sector iechyd, addysg, cyfiawnder teuluol a thai, ac yn bwysicaf oll, plant â phrofiad o fod mewn gofal eu hunain.

Nod yr adroddiad hwn yw disgrifio'r gwaith a'r cyflawniadau dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r Rhaglen Trawsnewid wedi bod yn uchelgeisiol ac yn bellgyrhaeddol, ac wedi cynnwys prosiectau byrdymor, tymor canolig a hirdymor a ddyluniwyd i lywio'r dirwedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant yn y dyfodol. Wrth inni nesáu at ddiwedd tymor y Senedd hon, bydd y Rhaglen Trawsnewid yn dirwyn i ben. Fodd bynnag, mae'r daith yn parhau, ac mae'r diweddariadau yn yr adroddiad hwn yn amlinellu rhai o'r camau arfaethedig nesaf yn y meysydd hyn.

# Enghreifftiau o weithgarwch ehangach sydd wedi cefnogi'r Rhaglen Trawsnewid

Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar weithgarwch o dan y Rhaglen Trawsnewid, bu meysydd gwaith allweddol eraill sy'n gysylltiedig â'r weledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru. Dyma rai enghreifftiau:

Hyrwyddo addysg dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i wella deilliannau addysgol dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal. Mae ‘Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb’ yn nodi ein huchelgeisiau ar gyfer addysg yng Nghymru. Maent yn cynnwys ymrwymiad i ddeilliannau teg mewn addysg i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru

Rhwng 2021 a mis Mawrth 2024, darparodd Llywodraeth Cymru £1.2m i awdurdodau lleol dreialu Model Ysgolion Rhithwir yng Nghymru, gyda'r nod o wella deilliannau addysgol plant â phrofiad o fod mewn gofal. Nododd gwerthusiad annibynnol o gyllid cynllun peilot Model Ysgolion Rhithwir (a gyhoeddwyd ar 17 Rhagfyr 2025) amrywiaeth o effeithiau cadarnhaol ymhlith yr awdurdodau lleol a gafodd y cyllid, gan gynnwys mwy o integreiddio rhwng y timau a oedd yn cefnogi dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal a mwy o ddarpariaeth ataliol.

Caiff canfyddiadau'r adolygiad eu defnyddio i lywio gwaith i sicrhau bod dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt o ran eu haddysg i ffynnu. Mae'r cynllun peilot yn ategu cymorth ac adnoddau eraill gan Lywodraeth Cymru i wella deilliannau addysgol dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru.

- Mae swyddogion wedi gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid yn y trydydd sector i gyd-lunio cyfres o ddogfennau canllaw sydd â'r nod o helpu awdurdodau lleol ac ysgolion i ddeall anghenion dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal ac ymateb iddynt yn well, a hyrwyddo arferion effeithiol.
- Rydym yn rhoi cyllid i Adoption UK Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol hon i ddarparu hyfforddiant i ymarferwyr addysg i'w helpu i ymateb yn effeithiol i anghenion cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal.
- Rydym wedi comisiynu Estyn i gynnal adolygiad thematig o effeithiolrwydd yr addysg a ddarperir i ddysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal yn 2026. Caiff y canfyddiadau eu defnyddio i nodi arferion effeithiol yn y sector, a'u rhannu.
- Rydym yn gweithio gyda'r sector i sicrhau bod dysgwyr yn cael budd o'r cymorth penodol ychwanegol a ddarperir drwy'r Grant Datblygu Disgyblion i blant sy'n derbyn gofal yn ogystal â'r Grant Hanfodion Addysg, sydd ar gael i bob plentyn sy'n derbyn gofal, o'r dosbarth derbyn i flwyddyn 11.

Mae dysgwyr â phrofiad o fod mewn gofal wrth wraidd y gwaith hwn, ac mae ein partneriaid allweddol, gan gynnwys awdurdodau lleol, Voices from Care ac Adoption UK Cymru yn eirioli drostynt.

Cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru

Cynllun i bobl ifanc â phrofiad o ofal 'Categori 3' a oedd yn gadael gofal ac yn troi'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023 oedd y Cynllun peilot Incwm Sylfaenol ar gyfer Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal yng Nghymru. Roeddent yn gymwys ar gyfer y cynllun peilot os oeddent:

- Yn gadael gofal ac yn troi'n 18 oed rhwng 1 Gorffennaf 2022 a 30 Mehefin 2023.
- Wedi bod yn derbyn gofal gan awdurdod lleol am gyfnod o 13 wythnos, neu am gyfnodau a oedd yn gwneud cyfanswm o 13 wythnos, a ddechreuodd ar ôl iddynt droi'n 14 oed ac a ddaeth i ben ar ôl iddynt droi'n 16 oed.
- Yn gadael gofal ac yn byw yng Nghymru, neu wedi'u lleoli y tu allan i Gymru ond yn cael eu cefnogi gan adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol yng Nghymru.

Bu'r cynllun peilot ar waith am dair blynedd, a chafodd pob aelod o'r garfan daliad incwm sylfaenol o £1,280 y mis (£1,600, cyn treth) am gyfnod o hyd at 24 mis o'r mis ar ôl eu pen-blwydd yn 18 oed. Cafodd cyfanswm o 644 o bobl ifanc incwm sylfaenol yn ystod cyfnod y cynllun peilot.

Roedd y taliad yn ddiamod ac nid oedd unrhyw ofynion yn gysylltiedig ag ef. Gallai unigolion weithio ac ennill incwm ychwanegol heb unrhyw effaith ar eu taliadau incwm sylfaenol. Cynigiwyd yr un taliad i bawb ac ni chafodd y swm ei newid yn ystod cyfnod y cynllun peilot.

Bwriad y cynllun peilot oedd gwella'r cymorth a oedd eisoes yn cael ei ddarparu i bobl ifanc a oedd yn gadael gofal yng Nghymru, megis yr eithriad rhag talu'r Dreth Gyngor a sefydlu Cronfa Dydd Gŵyl Dewi. Roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod incwm sylfaen yn fuddsoddiad uniongyrchol yn y grŵp hwn o bobl ifanc, a oedd yn rhoi'r cyfle iddynt ffynnu ac yn diwallu eu hanghenion sylfaenol.
Daeth y cynllun peilot i ben yn 2025. Timau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru oedd yn bennaf cyfrifol am roi'r cynllun peilot ar waith o ddydd i ddydd. Y timau gwasanaethau cymdeithasol oedd y rhyngwyneb rhwng y bobl ifanc a'r cynllun peilot, a gwnaethant barhau i gefnogi'r bobl ifanc fel y byddent yn cefnogi unrhyw berson ifanc arall a oedd yn gadael gofal neu â phrofiad o fod mewn gofal.

Mae'r cynllun peilot yn cael ei werthuso o hyd, a bydd y broses honno'n parhau hyd at 2027. Cafodd adroddiadau gwerthuso blynyddol eu cyhoeddi yn 2024, 2025 a 2026, ac mae pob adroddiad yn cynnwys gwybodaeth interim o'r dystiolaeth sy'n dod i'r amlwg. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i ddysgu am ganlyniadau'r fenter bwysig hon.

Eiriolaeth

"Cynnig rhagweithiol" yw'r broses o rannu gwybodaeth am hawl a hawliad statudol plentyn neu berson ifanc mewn amgylchiadau penodol i gael gwasanaeth eirioli

proffesiynol annibynnol.  Mae hawl gan blant a phobl ifanc i gael cynnig eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol pan fyddant yn dechrau derbyn gofal neu'n dod yn destun ymholiadau amddiffyn plant sy'n arwain at Gynhadledd Amddiffyn Plant Gychwynnol.

Mae ein Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol eisoes yn rhoi hawl statudol i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal ddewis cael cymorth eiriolaeth annibynnol hirdymor ai peidio, fel y mynnant. Mae Fforwm y Dull Cenedlaethol ar gyfer Eiriolaeth Statudol, a gadeirir gan Lywodraeth Cymru ac sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn, yn parhau i fonitro hyn. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn rhan o'r Fforwm Darparwyr Cenedlaethol, a hwylusir gan Plant yng Nghymru, gyda darparwyr gwasanaethau eirioli, sy'n cyfarfod bob chwarter.

Un o elfennau craidd y Dull Cenedlaethol yw'r Cynnig Rhagweithiol, sy'n rhoi hawl hirdymor absoliwt i blant a phobl ifanc gael eiriolaeth gan Eiriolwr Proffesiynol Annibynnol statudol fel rhan lwybr clir a chyson i sicrhau eu hawliau a'u hawliadau. Nodir y llwybr hwn yn fanwl yn yr Adroddiad etifeddiaeth a gyhoeddwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Eiriolaeth yn ystod haf 2022.   Mae'n sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yn rhoi gwybod i blant am eu hawl i gael eiriolaeth, yn eu helpu i ddeall pwysigrwydd a manteision eiriolaeth, a gyda chaniatâd y plentyn, yn hwyluso cyswllt annibynnol rhwng y plentyn a'r gwasanaeth eirioli.

Mae'r gwasanaeth eirioli yn cysylltu'n annibynnol â'r plentyn er mwyn cyfarfod ag ef, er mwyn gwneud y Cynnig Rhagweithiol, ac yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol wedi hynny a yw'r cynnig wedi'i dderbyn neu ei wrthod. Mae Adroddiad Etifeddiaeth 2022 yn cadarnhau “Nid yw optio allan yn golygu nad oes gan y plentyn neu’r person ifanc hawl i eiriolwr mwyach. Os bydd y plentyn neu’r person ifanc yn penderfynu maes o law ei fod eisiau eiriolaeth, bydd y gweithiwr cymdeithasol yn rhoi ei fanylion i’r gwasanaeth eiriolaeth i drefnu cyfarfod cychwynnol gyda’r plentyn neu’r person ifanc."

Iechyd Meddwl

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Strategaeth iechyd meddwl a llesiant meddyliol 2025 i 2035 | LLYW.CYMRU i unigolion o bob oed, sy'n amlinellu'r modd y byddwn yn cefnogi iechyd meddwl a llesiant dros y 10 mlynedd nesaf. Mae'r strategaeth hon yn canolbwyntio ar bwysigrwydd gweithio ar draws y llywodraeth, ac mae hyn yn arbennig o bwysig wrth ystyried anghenion babanod, plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Cewch glywed yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn am y canllawiau sydd wedi'u cyhoeddi i wasanaethau sy'n darparu cymorth therapiwtig i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r Canllawiau Ymarfer yn llywio gwasanaethau therapiwtig sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i weithio mewn partneriaeth agosach â'r sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael cymorth therapiwtig sy'n ystyriol o drawma ar yr adeg gywir, ac yn y ffordd gywir iddyn nhw. Mae'r gwaith hwn yn ategu gwaith sydd hefyd wedi'i wneud i ddatblygu manyleb ar gyfer CAMHS, fel y nodwyd yn ein hymateb blaenorol.

Mae'r fanyleb genedlaethol ar gyfer CAMHS yn nodi'r hyn y mae'r Llywodraeth yn ei ddisgwyl gan wasanaethau CAMHS yng Nghymru, a'r ffordd mae'n gweithio gyda gwasanaethau eraill i sefydlu'r trefniadau angenrheidiol i ddarparu gofal integredig. Rydym hefyd wedi diwygio canllawiau i sicrhau na fydd plant â phrofiad o fod mewn gofal sy'n symud rhwng ardaloedd byrddau iechyd o dan anfantais ac y byddant yn cadw eu statws amser aros am CAMHS.

Mae gwrando ar leisiau'r rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal a chynnal hawliau plant yn ganolog i'n gwerthoedd craidd yn Llywodraeth Cymru. Datblygwyd y canllawiau mewn ymateb i leisiau plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ac adborth ganddynt, a ddywedodd wrthym fod angen gwella eu gallu i gael cymorth iechyd meddwl a llesiant. Lluniwyd y canllawiau ar y cyd â rhanddeiliaid, gan gynnwys gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol ac ymarferwyr.

Tai

Ers 2019-20, rydym wedi bod yn buddsoddi £3.7m ychwanegol y flwyddyn yn y Grant Cymorth Ieuenctid i nodi pobl ifanc y mae risg y byddant yn dod yn ddigartref yn gynt, er mwyn sicrhau eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen i atal hynny. Fel rhan o'r cyllid hwn, penodwyd Cydgysylltwyr Digartrefedd ymysg Pobl Ifanc mewn gwasanaethau ieuenctid awdurdodau lleol, i weithio gyda chydweithwyr ym maes tai, addysg a gwasanaethau cymdeithasol i sicrhau bod y rhai y mae risg y byddant yn dod yn ddigartref yn cael eu nodi a'u cefnogi.

Mae'r gronfa arloesi ar gyfer digartrefedd ymysg pobl ifanc, a lansiwyd yn 2019-20 ac sy'n werth £3.4m y flwyddyn, yn cefnogi prosiectau sydd wedi'u hanelu'n benodol at bobl ifanc 16-25 oed y mae risg y byddant yn dod yn ddigartref neu sy'n ddigartref ar hyn o bryd, gan gynnwys y rhai sy'n gadael gofal, pobl ifanc anabl a'r rhai sydd wedi bod yn rhan o'r system cyfiawnder ieuenctid yn flaenorol, ymhlith eraill. Mae'r gronfa yn cynnwys amrywiaeth o brosiectau megis llety â chymorth, tai llety â chymorth, fflatiau hyfforddi, cymorth tenantiaeth, cynllun llety a rennir, cynllun cymorth pontio, a chynllun tai â chymorth i unigolion LHDTC+. Yn dilyn llwyddiant Tai yn Gyntaf yng Nghymru, mae pedwar prosiect Tai yn Gyntaf i Ieuenctid hefyd ar waith mewn pum awdurdod lleol fel rhan o'r gronfa.

Cafodd Fframwaith Llety a Chymorth i Bobl Ifanc sy'n Gadael Gofal Cymru ei adolygu a'i ddiweddaru ym mis Mai 2023. Mae'r Fframwaith wedi'i anelu at sefydliadau sy'n cefnogi pobl ifanc ar eu taith tuag at adael gofal yng Nghymru. Mae wedi'i lunio ar gyfer comisiynwyr awdurdodau lleol, rheolwyr ym maes gadael gofal, rheolwyr tai a darparwyr tai a chymorth i bobl ifanc.

Bydd Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru), a gyflwynwyd ar 19 Mai 2025, yn trawsnewid yr ymateb i'r rhai sy'n ddigartref yng Nghymru ac yn newid ein system digartrefedd yn sylweddol, i ganolbwyntio ar ymyrryd yn gynt ac atal. I gydnabod y risg gynyddol o ddigartrefedd y mae pobl ifanc sy'n gadael gofal yn ei hwynebu, mae'r Bil yn darparu pecyn o fesurau sydd, gyda'i gilydd, wedi'u llunio i roi terfyn ar ddefnyddio'r system digartrefedd fel llwybr allan o ofal a gwella'r broses o bontio o ofal i fyw'n annibynnol.

Bydd disgwyl i wasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau tai lleol gydweithio i ddatblygu protocolau ar y cyd i bobl ifanc, a bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i wasanaethau cymdeithasol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod llety addas ar gael i bobl ifanc penodol sy'n gadael gofal symud iddo.

Cynllun Pan Fydda i'n Barod

Yn ystod tymor y Senedd hon, parhaodd Llywodraeth Cymru â'i hymrwymiad i gefnogi pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wrth iddynt symud tuag at fyw'n annibynnol. Ers mis Ebrill 2016, bu hawl gan bobl ifanc yng Nghymru i aros gyda'u teuluoedd maeth y tu hwnt i 18 oed, hyd at 21 oed, neu 25 oed os ydynt yn cwblhau rhaglen addysg neu hyfforddiant y cytunwyd arni. Diben y trefniant hwn yw sicrhau bod pobl ifanc sy'n gadael gofal yn fwy parod ar gyfer bywyd fel oedolyn ac yn gallu pontio ar gyflymder sy'n adlewyrchu eu hanghenion.

Er bod cynllun Pan Fydda i'n Barod yn rhoi sefydlogrwydd gwerthfawr i bobl ifanc, rydym yn cydnabod bod heriau parhaus o ran ei roi ar waith ledled Cymru o hyd. Yn ystod tymor y Senedd hon, ailbwysleisiodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i atgyfnerthu'r cynllun a mynd i'r afael â rhwystrau a nodwyd gan bobl ifanc, gofalwyr maeth, ac awdurdodau lleol.

I gefnogi hyn, gwnaethom ddechrau paratoi ar gyfer adolygiad llawn o gynllun Pan Fydda i'n Barod ac rydym bellach yn cymryd y cam nesaf drwy gomisiynu sefydliad allanol i gynnal asesiad cynhwysfawr o'r cynllun ledled Cymru gyfan. Bydd yr adolygiad hwn yn archwilio'r hyn sy'n gweithio'n dda, ble y mae angen gwneud gwelliannau, a ph'un oes angen gwneud newidiadau i ddeddfwriaeth bresennol neu ganllawiau diwygiedig er mwyn rhoi sylfaen fwy cadarn i'r cynllun.

Bydd y gwaith hwn yn parhau yn ystod tymor y Senedd nesaf, gyda ffocws clir ar wella cysondeb, atgyfnerthu cynlluniau gofal, a sicrhau proses fwy di-dor i bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal wrth iddynt bontio i wasanaethau ôl-18.

# Y Rhaglen Trawsnewid a Llywodraethu


Sefydlwyd Grŵp Cyflawni Trawsnewid i arwain y gwaith o gyflawni wyth ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu, gan sicrhau bod yr ymrwymiadau hynny ar waith ac wedi'u gwreiddio erbyn 2026. Mae'r aelodau'n cynnwys partneriaid allweddol o awdurdodau lleol a'r trydydd sector yn ogystal â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r rhestr lawn o sefydliadau a gynrychiolir ar y Grŵp ochr yn ochr â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ac arweinwyr polisi Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

Voices from Care Cymru,
NSPCC,
Plant yng Nghymru,
Cafcass Cymru
Compass
Gweithwyr Iechyd Proffesiynol y GIG
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS) Cymru,
TGP Cymru,
Barnardo's,
Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol,
Maethu Cymru,
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru,
Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru,
Penaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan,
Gofal Cymdeithasol Cymru,
Comisiynydd Plant Cymru,
EYST,
Arolygiaeth Gofal Cymru.

Sefydlwyd Bwrdd Trosolwg Gweinidogol newydd hefyd, yn cynnwys rhanddeiliaid allweddol i oruchwylio'r Rhaglen Trawsnewid. Diben y Bwrdd oedd rhoi arweinyddiaeth wleidyddol, cyfeiriad a chymorth wrth gyflawni'r rhaglen trawsnewid. Pan sefydlwyd y Bwrdd yn gyntaf, cafodd ei gyd-gadeirio gan Brif Weinidog Cymru ar y pryd, Mark Drakeford AS, a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Julie Morgan AS.

Ar ddiwedd tymor y Senedd mae'r Bwrdd wedi'i gyd-gadeirio gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Roedd ei aelodau yn cynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Dai a Llywodraeth Leol, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip, a'r Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant. Mae'r aelodaeth drawslywodraethol hon yn dangos yr ymrwymiad ym mhob rhan o'r Llywodraeth.

## Strwythur Llywodraethu'r Rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Plant



# Cyflawni

## Ffrydiau Gwaith y Rhaglen Trawsnewid

Nododd Grŵp Cyflawni'r Rhaglen Trawsnewid ddwy ffrwd waith i roi meysydd newydd ar waith yn y Rhaglen:

### Ffrwd Waith - Data/Metrigau

Roedd y Grŵp Cyflawni am ganfod y ffordd orau o fesur cynnydd. Ym mis Mai 2024, sefydlwyd yr is-grŵp “Data a Pherfformiad” a chafodd y dasg o ddatblygu cyfres o fetrigau perfformiad.

Roedd disgwyl i'r prosiect gyflawni'r allbynnau canlynol:

- Sefydlu ffynonellau data sydd eisoes yn bodoli i fesur cynnydd y Rhaglen Trawsnewid.
- Cynghori'r Grŵp Cyflawni ar fylchau mewn data sydd eisoes yn bodoli a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid allweddol eraill.
- Ystyried yr argymhellion a wnaed gan Bwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Senedd yn ei adroddiad, ‘Os nad nawr, pryd’.
- Ystyried awgrymiadau i fesur y cynnydd a wnaed gan aelodau'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid, yn enwedig y rheini nad yw ffynonellau data sy'n bodoli eisoes yn eu mesur.
- Datblygu opsiynau i wella prosesau casglu data, hygyrchedd, a dulliau lledaenu i'w hystyried gan aelodau'r Grŵp Cyflawni a Llywodraeth Cymru.

Cyfarfu'r is-grŵp hwn sawl gwaith yn ystod 2024 a lluniodd restr o fesurau arfaethedig. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol i bennu cwmpas a chylch gwaith y prosiect. Yna, cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd un i un gyda phob un o'r priod sefydliadau i bennu pa ddata sy'n cael eu casglu ac sydd ar gael gan bob sefydliad. Yn ystod y cyfarfodydd hyn, trafodwyd hefyd yr eitemau data a argymhellwyd a sut y gallai pob sefydliad gyflawni'r argymhellion hyn.

Ar ôl y cyfarfodydd hyn, lluniwyd cyfres ddrafft o fetrigau posibl. Cyfarfu'r grŵp yn rheolaidd rhwng mis Mehefin a mis Medi i adolygu a mireinio'r rhestr hir hon o fetrigau posibl, nes y cytunwyd ar gyfres derfynol o fetrigau.

Daeth y gwaith i ben gan argymell y dylid datblygu'r metrigau perfformiad arfaethedig yn adroddiad blynyddol, a fyddai'n galluogi pob rhanddeiliad i ddeall y broses o ddarparu gofal cymdeithasol plant, a chraffu arni. Dyma sail yr argymhelliad yng nghasgliad yr adroddiad hwn.

## Ffrwd Waith – Ymyrraeth Gynnar ac Atal

Penderfynodd y Grŵp Cyflawni mai un o agweddau allweddol y Rhaglen Trawsnewid oedd ymyrraeth gynnar ac atal, felly sefydlwyd Is-grŵp Ymyrraeth Gynnar ac Atal wedi'i gadeirio gan Sarah Crawley, Cyfarwyddwr Barnardo's Cymru a De-orllewin Lloegr, ac roedd yr aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o asiantaethau allweddol yn y sector cyhoeddus a'r trydydd sector.

Cafodd yr Is-grŵp Ymyrraeth Gynnar ac Atal y dasg o ganolbwyntio ar y canlynol:

- Diffinio Ymyrraeth Gynnar ac Atal
- Deall pa gynigion ymyrraeth gynnar ac atal sydd ar gael ledled Cymru
- Casglu enghreifftiau o arferion da o'r cynigion hyn.

Cydweithiodd yr is-grŵp i ddatblygu fframwaith ymyrraeth gynnar ac atal ar gyfer Cymru gyfan. Nid yw'r fframwaith yn disodli canllawiau, diagramau na diffiniadau sy'n bodoli eisoes, ond mae'n eu dwyn ynghyd mewn un fframwaith cyffredinol. Y bwriad yw deall a lleoli gwasanaethau cyffredinol, sylfaenol, eilaidd ac wedi'u targedu pan fydd eu hangen ar fabanod, plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r fframwaith yn pwysleisio bod angen sicrhau bod gwasanaethau ar gael ar yr adeg gywir, a'u bod yn cael eu darparu yn y ffordd gywir, fel rhan o arlwy lawn ledled Cymru.

Uchelgais y fframwaith yw dwyn ynghyd brofiadau a gwersi a ddysgwyd ledled Cymru i gefnogi dull system gyfan o gynnal a gwella'r gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac atal a ddarperir, er mwyn lleihau nifer y babanod, plant a phobl ifanc sy'n ymuno â'r system gofal yn ddiogel. Mae'r fframwaith hefyd yn rhoi trosolwg o bwysigrwydd ymyrraeth gynnar a'r gwasanaethau hanfodol sydd eu hangen yng Nghymru i atal plant rhag ymuno â'r system gofal, yn ogystal â'n hymrwymiad i gefnogi teuluoedd i ffynnu.

Mae'r fframwaith yn cynnig ffordd i sefydliadau ddisgrifio'r ddarpariaeth a'r cymorth a'u lle yn y system, ac yn eu galluogi i rannu hyn â'r holl sefydliadau sy'n anelu at atal anghenion babanod, plant a phobl ifanc rhag gwaethygu.

Mae copi o fersiwn derfynol y fframwaith wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

# Goruchwylio'r Rhaglen Trawsnewid

Yn ychwanegol at y meysydd newydd a ystyriwyd yn fanwl gan yr is-grwpiau, mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid hefyd wedi goruchwylio a llywio'r gwaith o gyflawni wyth ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant yn ystod tymor y Senedd hon. Mae'r adran ganlynol yn rhoi crynodeb o'r hyn a gyflawnwyd mewn perthynas â'r wyth ymrwymiad, yn ogystal â meysydd eraill a flaenoriaethwyd gan y Grŵp sydd y tu hwnt i gwmpas yr ymrwymiadau hyn.

| | |
|---|---|
| **Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu** | **Archwilio'r broses o wneud diwygiadau radical i wasanaethau presennol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal.** |

<u>Uwchgynadleddau Profiad o Ofal</u>

Mae deall profiadau bywyd plant a phobl ifanc mewn gofal a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar eu bywydau wedi bod wrth wraidd popeth rydym wedi ei wneud fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid. Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos gyda Voices from Care Cymru i drefnu pedair Uwchgynhadledd yn ystod tymor y Senedd hon.

Ni chafodd yr Uwchgynadleddau hyn eu cynnal yn y DU o'r blaen. Eu nod yw sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed. P'un a yw'r plant a'r bobl ifanc mewn gofal ar hyn o bryd neu wedi gadael gofal, gallant rannu eu profiadau, eu syniadau, a'u gobeithion ar gyfer y dyfodol yn uniongyrchol â Gweinidogion. Yn ystod yr Uwchgynadleddau, y plant a'r bobl ifanc sy'n dewis yr hyn y byddant yn ei drafod, ac maent yn cael cyfle i ofyn cwestiynau a mynegi eu barn.

Yn ystod yr Uwchgynhadledd ddiwethaf ym mis Mai 2025, cyfarfu'r plant a'r bobl ifanc â phum Gweinidog o Lywodraeth Cymru, sef:

- Y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol,
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg,
- Y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant,
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg
- Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a’r Prif Chwip.

Ar ôl yr Uwchgynhadledd gyntaf, cafodd datganiad ei ddrafftio a'i lofnodi gyntaf gan Brif Weinidog Cymru ar y pryd, Mark Drakeford AS yn 2023. Yr hyn sy'n arbennig amdano yw ei fod wedi'i lunio ar y cyd gan bobl ifanc a Gweinidogion y Llywodraeth. Mae'n cynnwys gweledigaeth ar gyfer y dyfodol ac yn dangos pa mor bwysig yw safbwyntiau plant a phobl ifanc wrth wneud newidiadau.




Yn dilyn yr Uwchgynhadledd, ysgrifennodd Gweinidogion at yr awdurdodau lleol i rannu'r hyn y gwnaeth y plant a'r bobl ifanc sôn amdano, a gyfrannodd hefyd at y datganiad.

Gallwch ddarllen y datganiad yn: https://www.llyw.cymru/datgan-diwygiad-radical-o-ofal-plant-phobl-ifanc






Fframwaith Cenedlaethol ar Ymarfer Amlasiantaethol

Rydym wedi darparu Fframwaith Cenedlaethol ar Ymarfer Amlasiantaethol i wella cysondeb ymarfer drwy ymgysylltu â chynrychiolwyr o awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd, y trydydd sector, yr heddlu, a byrddau diogelu i gasglu barn a thystiolaeth ynglŷn â sut y gall ychwanegu'r gwerth mwyaf.

Y rhesymeg dros y gwaith hwn oedd sicrhau ymarfer mwy cyson ledled Cymru a chefnogi ffordd o weithio sy'n seiliedig ar gryfderau rhwng asiantaethau sy'n darparu gwasanaethau plant.  Ar gyfer gwasanaethau plant y datblygwyd y Fframwaith yn bennaf, ond gellir ei addasu i'w ddefnyddio mewn unrhyw sefydliad sy'n gweithio gyda phlant.

Mae gwaith partneriaeth wedi datblygu'n sylweddol yng Nghymru dros y degawd diwethaf wrth i asiantaethau gyfuno arbenigedd, cymorth a chyllid i dywys plant drwy sefyllfaoedd a all ymddangos yn anorchfygol. Pan fydd hyn yn gweithio'n dda, bydd plant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol yn gweld manteision, ond pan fydd yn methu, bydd yn arwain at risg, oedi a chyfleoedd a gollwyd i blant, pobl ifanc a theuluoedd; ac yn ychwanegu at rwystredigaeth a llwythi gwaith gweithwyr proffesiynol. Mae angen i bob rhan o'r system fabwysiadu dull cydweithredol o ddatrys problemau, sy'n seiliedig ar gryfderau, a nod y Fframwaith hwn yw gwneud cynnydd a sicrhau llwyddiant drwy ymarfer da.

Mae'r Fframwaith yn ddogfen weithredol fyw er mwyn ystyried datblygiadau a newidiadau i ymarfer a'r dirwedd polisi ledled Cymru: mae copi ohono ar gael yn: Fframwaith cenedlaethol ar ymarfer amlasiantaethol ar gyfer gwasanaethau plant | LLYW.CYMRU

Ochr yn ochr â'r Fframwaith, cyhoeddwyd yr adnodd cyntaf i gefnogi'r broses weithredu, sef [Canllawiau ymarfer cenedlaethol cymorth therapiwtig ar gyfer plant â phrofiad o fod mewn gofal](#).

Mae'r Canllawiau Ymarfer yn annog gwasanaethau therapiwtig sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal i weithio mewn partneriaeth agosach â'r sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn cael cymorth therapiwtig sy'n ystyriol o drawma ar yr adeg gywir, ac yn y ffordd gywir iddyn nhw.

Mae gwrando ar leisiau'r rhai sydd â phrofiad o fod mewn gofal a chynnal hawliau plant yn ganolog i'n gwerthoedd craidd yn Llywodraeth Cymru. Datblygwyd y canllawiau mewn ymateb i leisiau plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ac adborth ganddynt, a ddywedodd wrthym fod angen gwella eu gallu i gael cymorth iechyd meddwl a llesiant. Lluniwyd y canllawiau ar y cyd â rhanddeiliaid, gan gynnwys gofalwyr maeth, rhieni mabwysiadol ac ymarferwyr.

Modelau Gofal

Ym mis Medi 2024, arweiniodd Gofal Cymdeithasol Cymru, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, DEEP (y Rhaglen Datblygu Ymarfer a Gyfoethogir gan Dystiolaeth)

a grŵp y Comisiynwyr Ifanc ddau ddigwyddiad (yng Nghaerdydd a Llandudno). Nod y digwyddiadau oedd diffinio modelau gofal a'r dystiolaeth ddiweddaraf o'r defnydd ohonynt mewn cartrefi preswyl i blant.

Roedd y digwyddiadau yn gyfle i bob darparwr ddod ynghyd i fyfyrio ar ymarfer, gweld tystiolaeth a rhannu eu hymrwymiad i gefnogi canlyniadau da i blant. Cawsant eu hwyluso ar y cyd gan bobl ifanc sy'n byw mewn cartrefi gofal preswyl, a gynhaliodd hefyd brif sesiwn lle rhoesant eu tystiolaeth a'u barn am yr 'hyn sy'n gweithio' wrth fyw mewn model gofal.

## Y Camau Nesaf

Rhannu Arferion Gorau

Mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried datblygu llwyfan i rannu arferion gorau er mwyn cynnal cysondeb gwaith amlasiantaethol ledled Cymru, nodi enghreifftiau o arferion da a'u rhannu.

Gweledigaeth 2030

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (ADSS Cymru) ddau weithdy i archwilio sut y gallwn adeiladu ar yr arferion da mewn systemau a gwasanaethau sy'n gweithio ar sail amlasiantaethol ledled Cymru i gefnogi plant a theuluoedd ag anghenion cymhleth.

Cynhaliwyd dau weithdy, y cyntaf ar 26 Mehefin 2025 a'r ail ar 11 Medi 2025. Gweithdy gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant oedd y cyntaf, ac roedd yr ail yn

cynnwys asiantaethau yn y sector cyhoeddus ehangach. Cynhaliwyd gweithdy arall gyda'r trydydd sector, ac rydym wedi cael adborth gan rieni, plant a phobl ifanc.

Ochr yn ochr â hyn, cafodd cyfres o weithdai ar y Canllawiau Ymarfer Cenedlaethol eu cynnal a byddant yn cyfrannu at adroddiad cryno o ganfyddiadau ac argymhellion y gweithdai. Caiff hwn ei gyflwyno i arweinwyr gwahanol sectorau cyn diwedd y Tymor er mwyn llywio'r broses o'u rhoi ar waith a'n Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant 2030.

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Dileu elw o ofal plant sy’n derbyn gofal yn ystod tymor y Senedd nesaf. |
|---|---|

**Cefndir**

Roedd Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru yn cynnwys ymrwymiad i ddileu elw o ofal plant sy'n derbyn gofal.

Bwriad y polisi yw sicrhau nad yw arian cyhoeddus a fuddsoddir mewn gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn cael ei dynnu fel elw, ond yn hytrach bod unrhyw wargedion yn cael eu hail-fuddsoddi'n ôl yn y system er mwyn cefnogi canlyniadau, gwasanaethau a datblygiad proffesiynol gwell. Un o brif ystyriaethau'r gwaith hwn yw sicrhau ffocws cryf ar ddychwelyd plant sydd wedi'u lleoli'n bell o’u cartrefi a'u cymunedau, lle bo hynny'n gyson â'u llesiant.

Er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiad hwn, gwnaethom sefydlu Bwrdd traws-sector y Rhaglen Dileu Elw, yn cynnwys aelodau o bob rhan o'r sector gofal a chymorth i ystyried risgiau posibl a chynghori ar y dull gweithredu cyffredinol. Caiff y Bwrdd ei gefnogi gan ffrydiau gwaith a gadeirir yn annibynnol sy'n canolbwyntio ar awdurdodau lleol a'r sector nid-er-elw, yn y drefn honno.

Mae'r Bwrdd yn goruchwylio Cynllun Rhaglen Genedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer dileu elw sy'n nodi gweithgarwch lefel uchel a cherrig milltir ar gyfer Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru ac awdurdodau lleol drwy'r cyfnod gweithredu. Caiff cynllun gweithredu llywodraeth lefel cenedlaethol ar gyfer dileu elw ei gydgysylltu gan ADSS Cymru. Yn y dyfodol, bydd hefyd yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi a chyhoeddi cynlluniau digonolrwydd blynyddol am eu dyletswydd i sicrhau, cymaint ag y bo'n ymarferol, y gallant ddarparu llety i blant sy'n derbyn gofal o fewn ardal yr awdurdod, sy'n diwallu eu hanghenion.

<u>Camau a gymerwyd tuag at gyflawni'r ymrwymiad</u>

Yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus, cyflwynwyd y darpariaethau deddfwriaethol i ddileu elw drwy Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) ym mis Mai 2024. Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 (‘Deddf 2025’) Gydsyniad Brenhinol ar 24 Mawrth 2025.

Mae Deddf 2025 yn cyfyngu ar y gallu i wneud elw wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a ddarperir yn gyfan gwbl neu’n bennaf i blant, gwasanaethau llety diogel a gwasanaethau maethu (y cyfeirir atynt fel 'gwasanaethau plant o dan gyfyngiad') i awdurdod lleol neu endid nid-er-elw arall fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth.

Mae Deddf 2025 hefyd yn darparu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru ystyried unrhyw daliadau afresymol neu anghymesur a wnaed gan ddarparwr nid-er-elw gwasanaethau plant o dan gyfyngiad wrth benderfynu a yw darparwr yn berson

addas a phriodol i'w gofrestru. Diben hyn yw sicrhau na chaiff bwriad ein polisi – atal y gallu i wneud elw o ofal plant – ei danseilio.

Yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol, gwnaethom ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i reoliadau presennol ar gofrestru darparwyr gwasanaethau, a'u datganiadau blynyddol. Bwriedir i'r newidiadau sicrhau bod gan Arolygiaeth Gofal Cymru yr wybodaeth a'r sicrwydd sydd eu hangen arni i benderfynu a yw darparwr y 'gwasanaethau plant o dan gyfyngiad' hyn yn bodloni'r amodau nid-er-elw yn Neddf 2025. Bydd gwaith i gefnogi'r broses o'u rhoi ar waith yn parhau dros y blynyddoedd nesaf, mewn partneriaeth â'r sector.

Enghreifftiau o gydweithio

Bu cydweithio rhwng y sectorau yn hanfodol i ddatblygu'r ddeddfwriaeth sylfaenol a'r is-ddeddfwriaeth yn ogystal â'r amserlenni ar gyfer eu rhoi ar waith, a chafodd ei hwyluso drwy ymgyngoriadau cyhoeddus, Bwrdd y Rhaglen a'r ffrydiau gwaith.

Rydym yn parhau i fonitro cynnydd tuag at drawsnewid i fodel nid-er-elw. Ym mis Mai 2025, gwnaethom gyhoeddi'r cyntaf mewn cyfres o adroddiadau ar gynnydd, gan gynnwys nifer y cofrestriadau nid-er-elw newydd. Cyhoeddwyd yr ail adroddiad ym mis Tachwedd 2025 – mae'r ddau ohonynt ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Datblygu'r gweithlu a'i roi ar waith

Mae rhanddeiliaid cenedlaethol allweddol wedi cydweithio i gefnogi'r broses o ddileu elw. Mae hyn yn cynnwys Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn darparu cymorth gweithredu penodol i awdurdodau lleol, gan weithio'n agos gyda Phenaethiaid Gwasanaethau Plant Cymru Gyfan a phartneriaid allweddol fel Gofal Cymdeithasol Cymru, Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, Maethu Cymru ac Arolygiaeth Gofal Cymru. Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi gweithio gyda rhanddeiliaid cenedlaethol ac awdurdodau lleol i arwain cymorth ym maes datblygu'r gweithlu, gan gynnwys ysgogi'r broses o ddatblygu cynllun cenedlaethol ar gyfer y gweithlu a chynnal ymgyrchoedd recriwtio cenedlaethol. Mae Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, Gofal Cymdeithasol Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru a Maethu Cymru wedi bod yn datblygu eu data i gefnogi'r broses weithredu ac i helpu awdurdodau lleol i gynllunio eu gwasanaethau.

## Y Camau Nesaf

Bydd y gwaith o roi elfennau dileu elw Deddf 2025 ar waith yn parhau'n ddi-oed dros y blynyddoedd nesaf. Ein bwriad yw rhoi rhannau perthnasol y ddeddfwriaeth ar waith er mwyn sicrhau, o 1 Ebrill 2026, na fydd unrhyw ddarparwyr newydd cartrefi plant, llety diogel neu wasanaethau maethu yn gallu cofrestru ag Arolygiaeth Gofal Cymru ac na fydd darparwyr nid-er-elw sy'n bodoli eisoes yn gallu ychwanegu lleoedd neu wasanaethau ychwanegol at eu cofrestriad. O 1 Ebrill 2027, ni fydd darparwyr nid-er-elw sy'n bodoli eisoes yn gallu ychwanegu unrhyw welyau neu ofalwyr maeth ychwanegol at eu cofrestriad ac, o 1 Ebrill 2030, ni chaniateir

lleoliadau mewn cartrefi plant, gwasanaethau llety diogel neu wasanaethau maethu er-elw, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol.

**Dywedodd Joanne, sy'n berson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal ac yn aelod o Voices from Care Cymru:** “Mae gwybod bod hyn nawr yn gyfraith yn gwneud imi deimlo'n falch oherwydd rwy'n gwybod na fydd neb yn gwneud elw preifat o bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn y dyfodol.  Bydd yr arian nawr yn cael ei ailfuddsoddi er mwyn inni ffynnu a bod y bobl rydym yn dymuno bod.

“Nid yw hyn wedi digwydd dros nos, ac mae wedi cymryd llawer o amser a gwaith caled gennym ni fel pobl ifanc, ond roeddem yn benderfynol o ddal ati.  Byddwn yn parhau i weithio'n galed er mwyn gwella'r system gofal i blant a phobl ifanc.”

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Ariannu gwasanaethau preswyl rhanbarthol i blant ag anghenion cymhleth, gan sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu mor agos at eu cartrefi â phosibl ac yng Nghymru lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. |
|---|---|

**Cefndir**

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau, lle bo hynny'n ddiogel ac yn briodol, y caiff plant a phobl ifanc na allant aros gyda'u teuluoedd ofal mor agos i'w cartref â phosibl.

Mae'n bosibl bod gan blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal drawma heb ei ddatrys o'u profiadau yn ystod plentyndod, a all ymddangos ar ffurf anawsterau wrth reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad, ac wrth feithrin cydberthnasau. Os nad eir i'r afael â'u trawma, gall arwain at achosion mynych o leoliadau'n chwalu, gan arwain at sefyllfa lle y cânt eu lleoli mewn cartref diogel neu leoliad arbenigol sy'n aml yn bell oddi cartref. Mae ymyrraeth gynnar yn hanfodol i dorri'r cylch hwn, a hynny drwy ddull therapiwtig sy'n ystyriol o drawma sy'n sicrhau canlyniadau gwell i'r plentyn.

Yn 2022/23, darparwyd £3.5m ychwanegol o gyllid refeniw o'r Gronfa Gofal Integredig i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i brofi datrysiadau rhanbarthol integredig. Cyfrannodd y cyllid at gwblhau 15 o fentrau, a arweiniodd at y canlynol:

- Darparu 26 o welyau newydd i blant ag anghenion cymhleth.
- Darparu cymorth i 62 o blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth.

Oherwydd y problemau wrth gael gafael ar lety therapiwtig addas, yn 2023 gwnaethom gynnal adolygiad o wasanaethau preswyl a rhoesom fframwaith monitro mwy cadarn ar waith i gasglu gwybodaeth am gartrefi therapiwtig a oedd yn cael eu datblygu ym mhob ardal. Gwnaeth hyn ein helpu i nodi a dilyn datblygiadau o'r cysyniad dylunio i'r cam adeiladu cyfalaf hyd at y cam gweithredol.

Cyn mis Ebrill 2023, roedd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gweithio o linell sylfaen o 20 o gartrefi preswyl mewnol a oedd yn darparu 93 o welyau i blant ag anghenion cymhleth. Arweiniodd problemau yn ymwneud ag annigonolrwydd at ymyriadau diweddarach, yn aml ar ôl i bethau droi'n argyfwng, a gorddibyniaeth ar wasanaethau drud preifat yn bell i ffwrdd.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi er mwyn datblygu gwasanaethau preswyl therapiwtig drwy'r Gronfa Tai â Gofal, y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso, y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol a'r Gronfa Dileu Elw.



Mae gan y cartrefi plant ymdeimlad cartrefol, ac mae'r ymyriadau yn seiliedig ar anghenion, yn ystyriol o drawma ac yn arbenigol, er mwyn helpu'r plant i reoli eu hemosiynau ac atal eu hanghenion rhag gwaethygu, gan weithio gyda'u teuluoedd er mwyn helpu i'w hailuno.

Gwnaethom hefyd sefydlu Fforwm Arfer Da ag aelodaeth fawr o bob rhan o'r sector, gan gyfrannu at becyn cymorth arfer da. Mae'r grŵp hwn wedi helpu i ddiffinio anghenion cymhleth fel a ganlyn:

- Anghenion emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl difrifol, a all fodoli ochr yn ochr ag anghenion corfforol dwys.
- Efallai na fydd plant a phobl ifanc wedi cael diagnosis iechyd meddwl ond eu bod yn ei chael hi'n anodd rheoli eu hemosiynau, a all arwain at ymddygiadau anghydweithredol, gwrthgymdeithasol, sy'n tarfu ac sy'n peri gofid, yn ogystal â straen difrifol a gorbryder.
- Gall hyn gynnwys plant a phobl ifanc ag anabledd dysgu sy'n aros am ddiagnosis iechyd meddwl neu niwrowahaniaeth.

O fis Ebrill 2023 hyd yma, mae 39 o gartrefi preswyl mewnol wedi dod yn weithredol gan ddarparu 128 o welyau ychwanegol i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae rhai enghreifftiau o'r cartrefi therapiwtig hyn yn cynnwys y canlynol:

Tîm amlddisgyblaethol yw Goleudy, wedi'i leoli yng Nghaerdydd, sy'n gallu cadw'r plentyn mewn modd therapiwtig ac sy'n deall ei ymddygiadau. Mae'n ystyriol o drawma, yn cael ei arwain gan ddulliau fformiwleiddio ac yn canolbwyntio ar ymlyniad. Mae'r gwasanaeth yn helpu i ddatblygu cartrefi pwrpasol fel lleoliadau unigol i blant â'r anghenion mwyaf.

Menter a ariennir gan Gyngor Sir y Fflint, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yw Tŷ Nyth yn yr Wyddgrug. Addysgir sgiliau Therapi Ymddygiad Dialectig i'r plant a'r bobl ifanc i'w helpu i reoli eu hemosiynau. Mae hefyd yn gweithio gyda theuluoedd mewn achosion lle mae'n ddiogel eu hailuno, er mwyn nodi'r heriau a'r ffactorau sy'n sbarduno ymddygiadau.



Mae Golygfa'r Dolydd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ar ôl i dri lleoliad chwalu, drwy ddarparu goruchwyliaeth glinigol ar y safle. Mae'r model yn seiliedig ar wyddor ymddygiadol, gan gydnabod y trawma a wynebwyd a'i effaith o ddydd i ddydd. Y nod yw ceisio adfer profiadau neu sgiliau a gollwyd a dechrau ymdrin ag anawsterau sy'n gysylltiedig â datgysylltiad.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru wedi helpu i sicrhau cysondeb dulliau therapiwtig drwy arwain y broses o gyflwyno hyfforddiant DDP-PACE ar sail genedlaethol, gan weithio mewn partneriaeth â thimau awdurdodau lleol. Cafodd hyn ei ddatblygu'n gynnig estynedig, sy'n darparu goruchwyliaeth glinigol i dimau a rheolwr newydd sy'n gweithio i gynnwys cymorth therapiwtig wrth ddarparu gofal

**Y Camau Nesaf**

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn cartrefi therapiwtig i blant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. Mae 16 o gartrefi mewnol wrthi'n cael eu datblygu a fydd yn darparu 67 o welyau yn ystod y 12 mis nesaf, ac mae 18 o gartrefi â 73 o welyau wrthi'n cael eu cynllunio.

Bydd y Fforwm Arfer Da yn parhau â rhaglen o bynciau sy'n berthnasol i'r sector ac mae wrthi'n datblygu pecyn cymorth arfer da ar y cyd ag ExChange. Gellir defnyddio'r pecyn cymorth fel canllaw arfer da ar greu a darparu cartrefi therapiwtig.

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu: | Cryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel rhiant corfforaethol. |
|---|---|

**Cefndir**

Yn ystod tymor y Chweched Senedd hon, rydym wedi bod yn gweithio i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i “Gryfhau cyrff cyhoeddus yn eu rôl fel rhiant corfforaethol”.

Mae'r dyfyniad canlynol gan berson ifanc â phrofiad o fod mewn gofal yn dangos pwysigrwydd rhieni corfforaethol – “Felly, mae angen i Gymru ein cefnogi ac ymddiried ynom er mwyn ein helpu i dyfu ac i ddatblygu'n oedolion hapus”.

<u>Cryfhau Rhianta Corfforaethol</u>


Sefydlwyd Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol i fynd ar drywydd dau beth er mwyn helpu i gyflawni'r ymrwymiad hwn. Mae aelodau'r Grŵp yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau megis Voices from Care Cymru, swyddfa'r Comisiynydd Plant, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS), Plant yng Nghymru, y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafwyd mewnbwn hefyd gan bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal drwy Voices from Care Cymru.

Cytunodd y Grŵp ar ddau beth i'w cyflawni, sef Siarter Rhianta Corfforaethol a chanllawiau statudol cryfach drwy God Ymarfer Rhan 6 (Plant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

<u>Siarter Rhianta Corfforaethol</u>

Ystyriodd y Grŵp Gweithredu y ffordd fwyaf effeithiol o wella cysondeb rhianta corfforaethol ledled Cymru. Gan gydweithio â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, datblygodd y Grŵp gyfres o 11 o “egwyddorion rhianta corfforaethol” a naw addewid gyda'r bwriad o sicrhau bod pob corff cyhoeddus ledled Cymru yn gallu ymrwymo i'r egwyddorion a'r addewidion hyn a dod yn “rhieni corfforaethol”. Cytunodd y Grŵp y dylid troi'r egwyddorion a'r addewidion hyn yn Siarter ac, felly, ffurfiwyd y “Siarter Rhianta Corfforaethol – Addewid Cymru”.

**Mae 11 o egwyddorion rhianta corfforaethol yn cyd-fynd â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), sef:**




Wrth ddatblygu'r egwyddorion hyn, cydnabu'r Grŵp eu bod yn egwyddorion y gallai awdurdodau lleol yn ogystal â chyrff cyhoeddus ehangach, sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau preifat eu cyflawni. Felly, rhoddwyd statws gwirfoddol i'r Siarter ac mae ar agor ar hyn o bryd i bob corff yn y sector cyhoeddus a phob sefydliad yn y sector preifat a'r trydydd sector ymrwymo iddi a dod yn rhieni corfforaethol.

Cyhoeddwyd y **Siarter Rhianta Corfforaethol** gyntaf ar 29 Mehefin 2023 a chafodd ei lansio'n gyhoeddus ar 22 Medi 2023.  Ar ddiwrnod y lansiad, llofnododd Prif Weinidog Cymru ar y pryd, Mark Drakeford AS a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, Julie Morgan AS y Siarter, ar ran Gweinidogion Cymru. Ar y diwrnod, llofnododd yr Ysgrifennydd Parhaol, Andrew Goodall y Siarter hefyd, ar ran Llywodraeth Cymru.

Ceir rhestr lawn o'r sefydliadau sydd wedi ymrwymo hyd yma ar wefan Llywodraeth Cymru yn:
Sefydliadau-syn-rhieni-corfforaethol-html

## Cyflawni Rhianta Corfforaethol

Roeddem am roi hunaniaeth i rianta corfforaethol yng Nghymru. Datblygwyd y Bathodyn Rhianta Corfforaethol isod drwy weithio gyda phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, a dyma'r symbol a roddir i bob rhiant corfforaethol newydd sy'n ymrwymo.

Rhianta Corfforaethol Cymru
Corporate Parenting Wales

## Addewidion Rhianta Corfforaethol

Gan weithio gyda phobl ifanc, datblygwyd templed addewid yn gwahodd sefydliadau i ddangos pa un o'r egwyddorion rhianta corfforaethol y byddent yn gweithio i'w chyflawni neu yr oedd eu gwaith yn cyd-fynd yn agos â hi. Mae'r templed addewid hefyd yn gofyn i sefydliadau amlinellu'r cymorth y maent yn ei gynnig i blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Ochr yn ochr â'r templed addewid, a chan ddangos bod rhianta corfforaethol yn fater traws-sector, datblygwyd llythyr croeso gan Brif Weinidog Cymru, a chaiff ei anfon at bob sefydliad newydd sy'n ymrwymo.

Bydd pobl ifanc yn adolygu sampl o'r addewidion hyn ac yn rhoi adborth i sefydliadau.

## Pecyn Cymorth Rhianta Corfforaethol

Datblygodd y Grŵp Gweithredu Rhianta Corfforaethol, ar y cyd â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, y Pecyn Cymorth Rhianta Corfforaethol: [Beth mae'n ei olygu i fod yn rhiant corfforaethol? | LLYW.CYMRU].

Y bwriad yw adolygu'r pecyn cymorth yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn ddogfen fyw i sefydliadau ac adeiladu ar y gwaith da sy'n cael ei wneud ledled Cymru.

## Codi ymwybyddiaeth o Rianta Corfforaethol yng Nghymru

Drwy godi ymwybyddiaeth o rianta corfforaethol ledled Cymru, mae dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth ohono ymhlith sectorau newydd ledled Cymru wedi cynyddu.

Ym mis Tachwedd 2025, i gyd-fynd â Mis Ymwybyddiaeth o'r Rhai sy'n Gadael Gofal, gwnaethom lansio animeiddiad newydd yn annog sefydliadau i ystyried ymrwymo.

https://youtube.com/shorts/3a4n1BCRNoY

Rydym wrthi'n datblygu fideo ar y cyd â phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a Gofalwyr Cymru i hyrwyddo'r Siarter a'i phwysigrwydd i bobl ifanc.

Fel rhan o'r gwaith hwn, rydym yn gweithio gyda Grŵp Comisiynwyr Ifanc Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant, sy'n datblygu fersiwn o'r Siarter i bobl ifanc.

Y digwyddiad arferion gorau cyntaf ym maes Rhianta Corfforaethol




Ar 20 Chwefror 2025, cynhaliwyd y digwyddiad arferion gorau cyntaf ym maes Rhianta Corfforaethol yng Nghymru. Roedd y digwyddiad yn gyfle i ddarpar rieni corfforaethol gael rhagor o wybodaeth am yr hyn a ddisgwyliwyd ganddynt, ac i rieni corfforaethol presennol ddeall sut y gallent fireinio eu haddewidion. Roedd amrywiaeth o randdeiliaid yn bresennol, gan gynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleol, GIG Cymru, rhwydweithiau maethu, y sector addysg, sefydliadau yn y trydydd sector, a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal.

Y drafodaeth a arweiniwyd gan y bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal am bwysigrwydd rhianta corfforaethol a gafodd yr effaith fwyaf ar y rhai a oedd yn bresennol. Siaradodd y bobl ifanc yn ddewr ac yn onest am fethiannau llwyr yn ystod eu cyfnod mewn gofal. Gwnaethant fyfyrio ar eu gobaith y bydd y Siarter hon yn herio ac yn newid y dirwedd ar gyfer plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, gan erfyn ar sefydliadau nid yn unig i wrando ar lais y plentyn ond hefyd i gyflawni eu haddewidion rhianta corfforaethol.

Gyda sgyrsiau emosiynol gan bobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal a sgyrsiau diddorol am y ffordd y mae Coleg Penybont a'r Rhwydwaith Maethu yn ymgorffori ac yn cyflawni eu dyletswyddau, roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn a daflodd oleuni ar y modd y gallai sefydliadau eraill gyflawni eu haddewidion.

Canllawiau statudol cryfach drwy God Ymarfer Rhan 6 (Plant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Rydym wedi dechrau gwaith i gryfhau'r canllawiau i awdurdodau lleol yng Nghod Ymarfer Rhan 6 (Plant sy’n derbyn gofal a phlant sy’n cael eu lletya) o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos o hyd ar y newidiadau arfaethedig yn 2025. Y bwriad yw i'r Cod Ymarfer diwygiedig gael ei gyflwyno yn 2026.

Ein nod wrth gyflwyno'r Cod diwygiedig, ochr yn ochr â datblygu'r bennod ar rianta corfforaethol, yw atgyfnerthu llais y plentyn wrth gynllunio gofal a chymorth a lleoliadau; ac ymateb i argymhellion plant â phrofiad o fod mewn gofal mewn perthynas â newid lleoliadau a chynnal cyfarfodydd adolygu fel y'u hamlinellir yn adroddiad Lwc ac adborth o'r Uwchgynadleddau Profiad o Ofal blynyddol.

**Y Camau Nesaf**

Cymuned ymarfer

Er mwyn adeiladu ar lwyddiant ein digwyddiad arferion gorau ym mis Chwefror 2025, byddwn yn sefydlu Cymuned Ymarfer Rhianta Corfforaethol. Bydd y gymuned hon yn rhannu enghreifftiau o arferion da ac ar agor i bob sefydliad sydd wedi ymrwymo i'r Siarter, neu'r rheini sydd wedi dangos diddordeb ac sy'n dymuno gwybod mwy. Ein nod yw cynnal y cyfarfod cyntaf yn ystod gwanwyn 2026.

Datblygu pecynnau cymorth ac adnoddau ychwanegol

Gan gydgysylltu â'r Gymuned Ymarfer a'r Cod Ymarfer diwygiedig a'r adborth a gafwyd, byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ddatblygu pecynnau cymorth ychwanegol i gefnogi arferion da ledled Cymru.

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system gofal. |
| --- | --- |

**Cefndir**

Yn ystod tymor y Chweched Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn gweithio i gyflawni ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i atal teuluoedd rhag chwalu drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni y mae eu plant mewn perygl o ddod yn rhan o'r system gofal.
Mae hyn yn dangos ymrwymiad Llywodraeth Cymru i gefnogi teuluoedd sydd mewn perygl o chwalu, yn enwedig lle ystyrir bod y plant ar ffiniau gofal.

Drwy ariannu gwasanaethau eirioli i rieni, bu modd hyrwyddo dull sy'n seiliedig ar hawliau er mwyn sicrhau bod rhieni yn cael eu grymuso i gymryd rhan ystyrlon mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar eu teuluoedd.

Mae eiriolaeth i rieni wedi dod yn un o elfennau allweddol strategaeth ataliol Llywodraeth Cymru ym maes gwasanaethau cymdeithasol plant. Mae'n dangos newid mewn ffocws o ymyriadau ymatebol i gymorth rhagweithiol i deuluoedd sydd mewn perygl o chwalu, yn enwedig y rhai sydd ar ffiniau gofal. Yn hanesyddol, mae rhieni sy'n dygymod â'r system gofal cymdeithasol wedi wynebu rhwystrau sylweddol i ddeall eu hawliau, ymgysylltu â gweithwyr proffesiynol, a dylanwadu ar benderfyniadau am eu plant. Nod gwasanaethau eirioli yw mynd i'r afael â'r heriau hyn drwy ddarparu cymorth annibynnol sy'n seiliedig ar hawliau sy'n grymuso rhieni i gymryd rhan ystyrlon mewn prosesau statudol.

Mae cynnwys eiriolaeth i rieni yn Rhaglen Lywodraethu 2021-2026 yn nodi ymrwymiad polisi sylweddol i gefnogi teuluoedd drwy fesurau ataliol cynnar. Mae hefyd yn ymateb i argymhellion gan Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd, a alwodd am hawliau statudol i gymorth cofleidiol dwys i rieni geni â phrofiad o fod mewn gofal, gan gynnwys eiriolaeth arbenigol.

<u>Camau a gymerwyd tuag at gyflawni'r ymrwymiad:</u>

Cafodd eiriolaeth i rieni ei chyflwyno'n genedlaethol. Rhwng tri darparwr, sef y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS), Tros Gynnal Plant (TGP) Cymru a Rhwydwaith Eiriolaeth Rhieni (PAN), mae cymorth eiriolaeth ar gael i rieni sy'n rhan o weithdrefnau amddiffyn plant ym mhob rhanbarth yng Nghymru.

<u>Enghreifftiau o gydweithio:</u>

Mae cymorth eiriolaeth i rieni mewn achosion amddiffyn plant yn galluogi rhieni a gweithwyr proffesiynol i gydweithio mewn modd cadarnhaol, gan bontio unrhyw fylchau rhwng defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol, gweithwyr addysg proffesiynol, ac ati.

Yn ogystal ag eiriolaeth broffesiynol un i un i rieni, darparwyd eiriolaeth gan gymheiriaid hefyd. Mae grwpiau cymorth gan gymheiriaid ac eiriolaeth gan gymheiriaid yn grymuso rhieni drwy brofiadau a rennir, gan ennyn hyder a chefnogi ei gilydd i gael gafael ar adnoddau, yn ogystal â helpu i fynd i'r afael â materion yn ymwneud ag unigrwydd ac ynysigrwydd, a all yn aml ddod i'r amlwg wrth weithio gydag asiantaethau ar sail amddiffyn plant.

Drwy'r Grantiau i'r Trydydd Sector ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy, mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Prosiect Undod yn ystod tymor y Senedd hon. Prosiect gan NYAS Cymru ar gyfer Cymru gyfan yw Prosiect Undod, a ddyluniwyd i atal plant sy'n cael eu geni i famau ifanc â phrofiad o fod mewn gofal rhag ymuno â'r system gofal. Mae'n darparu cymorth dwys sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, cyngor ariannol a chyngor ar dai, ac eiriolaeth ffurfiol, gan hyrwyddo hawliau a hawliadau a chreu cyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant.
Fel rhan o Brosiect Undod, gall menywod ifanc hefyd gymryd rhan mewn prosiectau gyda menywod ifanc eraill â phrofiadau tebyg. Mae'r prosiect hefyd yn cynnal gweithdai ar gydberthnasau iach.

**Y Camau Nesaf**

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud tuag at ymgorffori gwasanaethau eirioli i rieni ledled Cymru, mae rhagor o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod teuluoedd y mae angen cymorth arnynt yn elwa'n llawn ar y gwasanaethau hyn, gan helpu i leihau nifer y plant sy'n dod yn blant sy'n derbyn gofal.

Mae eiriolaeth i rieni yn chwarae rôl hollbwysig wrth rymuso rhieni a'u cefnogi, ac rydym yn parhau i gefnogi'r gwasanaeth hwn ac yn archwilio ffyrdd o sicrhau bod eiriolaeth a chymorth ar gael yn gyson i rieni ledled Cymru. Er mwyn gwneud hyn, dylai cam nesaf y gwaith gynnwys:

- Pennu maen prawf clir a fframwaith cenedlaethol ar gyfer mynediad at eiriolaeth i rieni ledled Cymru.
- Ymestyn cynlluniau mentora gan riant-gymheiriaid ym mhob rhanbarth yng Nghymru.
- Parhau i ariannu a chefnogi gwasanaethau eirioli i rieni yng Nghymru.
- Sefydlu fforwm cenedlaethol ar gyfer eiriolaeth i rieni a fydd yn cynnwys llais rhieni er mwyn llywio syniadau a datblygiadau yn y dyfodol.

Bydd maen prawf clir ar gyfer mynediad at wasanaethau eirioli i rieni yn sicrhau bod rhieni sy'n gymwys i gael cymorth gan eiriolwr yn gallu manteisio ar y gwasanaeth.

Yn ychwanegol at hyn, bydd ehangu grwpiau cymorth eiriolaeth gan gymheiriaid yn sicrhau bod rhieni yn cael cyfleoedd i gysylltu â rhieni eraill a all fod â phrofiadau bywyd tebyg. Mae manteision y prosiectau hyn yn cynnwys lleihau unigrwydd ac ynysigrwydd, a meithrin ymdeimlad o berthyn a all, yn ei dro, helpu rhieni sy'n wynebu anawsterau i ddatblygu rhwydweithiau cymorth cadarnhaol.

Mae adborth gan rieni yn hollbwysig i ddarparu a datblygu gwasanaethau. Er bod data yn ddefnyddiol i ddeall nifer y rhieni sydd wedi cael cymorth, byddwn yn ceisio

casglu adborth ansoddol a phrofiadau bywyd er mwyn sicrhau bod y cymorth yn cael ei deilwra at anghenion datblygol rhieni a theuluoedd yn y maes hwn.

Bydd y camau gweithredu hyn yn manteisio ar y cynnydd cadarnhaol a wnaed tuag at roi eiriolaeth i rieni ar waith ledled Cymru ac yn ceisio ymgorffori ffordd gefnogol a grymusol o weithio gyda phlant a theuluoedd ymhellach er mwyn helpu mwy o blant i barhau i fyw gartref yn ddiogel a lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Darparu cymorth arbenigol ychwanegol i blant ag anghenion cymhleth a allai fod ar ffiniau gofal. |
|---|---|

**Cefndir**

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi teuluoedd agored i niwed ag anghenion cymhleth i aros gyda'i gilydd ac mae gwasanaethau ar ffiniau gofal awdurdodau lleol yn chwarae rôl hanfodol wrth gefnogi'r teuluoedd hyn.

Mae'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn gronfa bum mlynedd sy'n werth £146.8m i gyflawni rhaglen newid drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol tan fis Mawrth 2027. Y nod yw datblygu modelau gofal integredig, gan ganolbwyntio ar gefnogi teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ddiogel a chymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal sydd ag anghenion cymhleth.

Gwnaethom fuddsoddi dros £14m yn 2022/23, gan gynyddu i bron £23m yn ystod y blynyddoedd dilynol, a helpodd i gefnogi tua 6,500 o blant y flwyddyn drwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau, gan gynnwys:

- Canolfan Adnoddau Pobl Ifanc, neu ARC, yng Nghaerdydd, sy'n darparu cymorth therapiwtig dwys i bobl ifanc dros 11 oed a'u teuluoedd sydd mewn perygl o chwalu. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnig cymorth integredig mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd, addysg, ieuenctid a thai. Mae wedi datblygu rhaglenni sy'n seiliedig ar atgyfnerthu'r cryfderau o fewn y teulu ac asesu'r cymhelliant dros newid.
- Mae Fy Nhîm Cefnogol, neu MyST, yng Ngwent yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl arbenigol i blant a phobl ifanc hyd at 21 oed yn rhanbarth Gwent, sy'n derbyn gofal neu'n gysylltiedig â gofal cymdeithasol plant ac sydd ag anghenion iechyd meddwl cymhleth sy'n deillio o drawma cynnar a chymhleth. Nododd 100% o blant eu bod yn teimlo'n llai ynysig ar ôl cael cymorth.
- Mae Magu, Baby in Mind a Camau Babi yn ardal Cwm Taf yn wasanaethau cyn-geni sy'n cefnogi rhieni a pherthnasau babanod sydd mewn perygl o ddod yn blant sy'n derbyn gofal. Gofynnir barn y rhieni a chânt eu cofnodi drwy gwblhau dogfennau am 'yr hyn sy'n bwysig i mi', a'u hadolygu'n rheolaidd drwy 'ble ydw i nawr – adnodd myfyrio'. Caiff y canlyniadau a nodir gan y rhieni eu hadolygu, a chaiff pob cynllun cymorth ei deilwra at yr anghenion unigol. Mae'r rhain wedi llwyddo i leihau achosion o drais gan blant tuag at eu rhieni ac wedi arwain at lefelau integreiddio addysgol uwch, gyda thros 80% o'r babanod yn aros gyda'u teuluoedd.
- Mae gwasanaeth Ar Ffiniau Gofal Sir Benfro yn mynd â theuluoedd ar daith newid drwy osod nodau y gellir eu cyflawni o fewn cynlluniau diogelwch. Mae'n defnyddio dull sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i gofnodi llwyddiant a meysydd i'w datblygu, gan ddangos tystiolaeth hefyd o'r newidiadau y mae teuluoedd yn eu gwneud. 'Arferion, Ffiniau a Rhianta Cadarnhaol' ac 'Amodau'r Cartref a

Gwrthdaro/Cydberthnasau Teuluol' yw'r meysydd mwyaf cyffredin y gofynnir am gymorth yn eu cylch. Mae 75% o'r plant wedi aros gyda'u teuluoedd yn dilyn ymyriadau.

- Mae Timau Teuluoedd Cydnerth yng Ngogledd Cymru yn darparu ymyriadau dwys i deuluoedd lle mae risg y caiff plant neu bobl ifanc eu tynnu oddi wrthynt o ganlyniad i iechyd meddwl rhiant, camddefnyddio sylweddau, cam-drin domestig, esgeulustod neu niwed emosiynol, neu ffordd amhriodol o fagu plentyn â chyflwr iechyd meddwl neu gyflwr niwrolegol. Gall teuluoedd fanteisio ar amrywiaeth o ymyriadau, megis cyrsiau Freedom neu 'Own My Life' i ddioddefwyr trais domestig, cynhadledd grŵp teuluol a chydberthnasau iach i bobl ifanc sy'n wynebu risg o niwed neu risg y bydd rhywun yn camfanteisio arnynt. O ganlyniad, arhosodd 94% o blant yn eu cartrefi, ni chafodd 97% eu harestio eto, roedd 100% yn yr ysgol neu'n gweithio, ac roedd 88 yn camddefnyddio sylweddau yn llai aml.

Mae'r wybodaeth a gasglwyd wrth roi'r gwasanaethau hyn ar waith wedi helpu i ddiffinio ein Canllawiau Ymarfer Cenedlaethol ar gymorth therapiwtig i blant â phrofiad o fod mewn gofal, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025 ochr yn ochr â'r Fframwaith Cenedlaethol ar ymarfer amlasiantaethol ar gyfer gwasanaethau plant.

Fframwaith NYTH

Mae fframwaith NYTH yn rhoi strwythur a chyfres gyffredin o egwyddorion ar gyfer creu dull system gyfan o ymdrin ag iechyd meddwl a llesiant babanod, plant a phobl ifanc. Mae'r fframwaith yn cael ei roi ar waith ym mhob rhan o'r system eang yn y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol, y sector addysg a'r trydydd sector drwy hyfforddiant a dulliau hunanasesu, a thrwy rannu arferion da. Cyhoeddwyd fideos yn dangos enghreifftiau o arferion da yn ddiweddar, sy'n cynnwys prosiectau sy'n gweithio gyda'r rhai sydd ar ffiniau gofal.

Mae Cymuned Ymarfer NYTH a Chefnogi Teuluoedd wedi dod ag amrywiaeth eang o ymarferwyr o bob cwr o Gymru ynghyd, a hynny o feysydd megis help cynnar, cymorth i deuluoedd, iechyd meddwl a llesiant, trais domestig, camddefnyddio sylweddau, ar ffiniau gofal, amenedigol, pontio i fywyd fel oedolyn, addysg, chwarae, gwaith ieuenctid, chwaraeon, diogelu a gwasanaethau gofal therapiwtig.

.

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Etifeddiaeth Gofal – Cefnogi Plant ar eu Pen eu Hunain sy’n Ceisio Lloches yng Nghymru |
|---|---|

**Cefndir**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynnal hawliau plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy’n ceisio lloches, gan gydnabod eu natur agored i niwed unigryw a'r angen am ddull tosturiol sy'n seiliedig ar hawliau o ddarparu gofal iddynt a'u hamddiffyn. Mae'r ymrwymiad hwn yn ganolog i uchelgais Cymru i ddod yn Genedl Noddfa – gwlad lle mae'r rhai sy'n ffoi rhag gwrthdaro, erledigaeth, a chaledi yn cael eu croesawu a'u cefnogi i ailadeiladu eu bywydau ag urddas a gobaith.

Mae plant ar eu pen eu hunain sy’n ceisio lloches yn aml yn cyrraedd Cymru heb gwmni, ar ôl taith drawmatig, ac maent yn aml yn wynebu heriau cyfreithiol, emosiynol a chymdeithasol cymhleth. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen diogelu'r plant hyn ar unwaith ond hefyd fod angen darparu cymorth hirdymor wedi'i deilwra iddynt i'w helpu i ffynnu. Mae'r gydnabyddiaeth hon wedi'i chynnwys mewn fframweithiau polisi ehangach, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, Cynllun Gweithredu Cenedl Noddfa, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sydd, gyda'i gilydd, yn anelu at sicrhau bod pob plentyn, ni waeth beth fo'i gefndir, yn cael gofal cyson a theg sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

Dros dymor y Chweched Senedd, gweithiodd Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol, sefydliadau yn y trydydd sector, ac adrannau o Lywodraeth y DU i gyflawni rhaglen i atgyfnerthu gwasanaethau cymdeithasol, gwella canllawiau proffesiynol ac adnoddau cymorth emosiynol, a gwella arferion asesu oedran.


<u>Gosod Sylfeini Cymorth</u>

Dechreuodd y daith drwy gydnabod yn glir bod plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy’n ceisio lloches yn wynebu heriau unigryw – ansicrwydd cyfreithiol, trawma emosiynol, a'r angen am ofal sy'n sensitif o safbwynt diwylliant. Mewn ymateb i hynny, comisiynodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Gyfreithiol y Plant Cymru i lunio canllawiau addas i blant yn amlinellu hawliau a hawliadau plant sy'n ceisio lloches. Daeth y canllawiau hyn, a gyfieithwyd i 12 o ieithoedd, yn un o gonglfeini gwybodaeth hygyrch i bobl ifanc a'u gofalwyr, gan sicrhau bod pob plentyn yn deall ei hawliau yng Nghymru.

Ar y cyd â Chanolfan Gyfreithiol y Plant Cymru, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn 2021 i ofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol sy'n cefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Nod y canllawiau hyn oedd gwella dealltwriaeth o anghenion a phrofiadau unigryw'r plant hyn, gan sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gallu darparu gofal hyddysg a thosturiol sy'n seiliedig ar hawliau.

Creu Cartrefi Diogel a Chefnogol

Gan gydnabod pwysigrwydd amgylcheddau meithringar sefydlog, lansiodd Maethu Cymru ymgyrch genedlaethol ym mis Medi 2022 i recriwtio gofalwyr maeth yn benodol ar gyfer ffoaduriaid ifanc. Drwy'r fenter hon, sy'n gyson â'r weledigaeth ar gyfer Cenedl Noddfa, aeth pob un o'r 22 o awdurdodau lleol ati i ddarparu llwybrau clir i unigolion sy'n dymuno cefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches drwy faethu. Drwy'r ymgyrch, llwyddwyd i godi ymwybyddiaeth yn ogystal ag atgyfnerthu'r seilwaith ar gyfer lleoliadau gofal ledled Cymru.




[gallwch chi helpu ffoadur ifanc - maethu cymru (llyw.cymru)]

Gwella Ymarfer Proffesiynol

Mae asesu oedran yn broses hanfodol a sensitif wrth gefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Er mwyn sicrhau cysondeb a thegwch, datblygodd a chyhoeddodd Llywodraeth Cymru Becyn Cymorth Asesu Oedran ym mis Mehefin 2021. Rhoddodd yr adborth hwn arweiniad ymarferol i weithwyr cymdeithasol a staff awdurdodau lleol, i'w helpu i lywio asesiadau cymhleth mewn ffordd hyderus a thosturiol.

Ymateb yn Dosturiol i Argyfyngau Byd-eang

Creodd y rhyfel yn Wcráin her ddyngarol yr oedd angen ymateb iddi ar frys. O ganlyniad, gweithiodd Llywodraeth Cymru yn agos gyda'r Swyddfa Gartref i ddylunio cynllun pwrpasol i ganiatáu i blant ar eu pen eu hunain o Wcráin ymgartrefu'n ddiogel yng Nghymru. Roedd hyn yn cynnwys ymdrechion cydgysylltiedig i ddarparu cymorth diogelu, llety, a chymorth emosiynol ac ymarferol wedi'i deilwra.

Gan adeiladu ar hyn, lansiwyd cynllun Cartrefi i Wcráin ym mis Mehefin 2022, a chyhoeddwyd canllawiau penodol i Gymru ym mis Awst 2022 i helpu i'w gyflawni.

Llywio Newid Deddfwriaethol

Wynebwyd heriau sylweddol yn sgil cyflwyno'r Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau a'r Ddeddf Mudo Anghyfreithlon. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y ddau Fil, gan godi pryderon sylweddol am y defnydd o ddulliau gwyddonol i asesu oedran, y broses o ganoli cyfrifoldebau, a'r potensial i hawliau plant gael eu dileu.

Gwrthododd y Senedd gydsyniad, gan nodi anghydnawsedd â'r gyfraith yng Nghymru a rhwymedigaethau rhyngwladol. Pwysleisiodd y penderfyniadau hyn ymrwymiad Cymru i ddiogelu hawliau plant a chynnal cyfrifoldebau datganoledig.

Buddsoddi yn y Dyfodol

Mae buddsoddiad ariannol wedi bod yn allweddol i alluogi cynnydd. Drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), darparodd Llywodraeth Cymru £200,000 y flwyddyn i gefnogi'r broses o roi'r Cynllun Trosglwyddo Cenedlaethol ar waith, gan gynnwys hyfforddiant i ofalwyr maeth a chymorth gyda lleoliadau i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches ag anghenion cymhleth.

Dyrannwyd £175,000 ychwanegol y flwyddyn i ddarparu cymorth wedi'i dargedu a'i deilwra sy'n helpu'r bobl ifanc hyn i bontio'n llwyddiannus i fywyd fel oedolyn.

Gwaith Cydweithredol ac Arloesedd

Mae partneriaethau wedi bod yn ganolog i lwyddiant. Yn 2022, ariannodd Llywodraeth Cymru Ganolfan Gyfreithiol y Plant i gynhyrchu ffilmiau amlieithog yn esbonio prosesau lloches. Roedd y prosiect cydweithredol hwn yn cynnwys grwpiau ieuenctid, gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, a myfyrwyr prifysgol, gan ddangos pŵer ymgysylltu ar draws sectorau.

Ym mis Gorffennaf 2024, cynhaliodd Partneriaeth Mudo Strategol Cymru weithdy i archwilio'r potensial ar gyfer cynllun gwarcheidiaeth i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Mae'r fenter hon yn adlewyrchu uchelgais flaengar i wella cymorth statudol a sicrhau bod gan bob plentyn eiriolwr dynodedig.

## Y Camau Nesaf

Wrth inni edrych i'r dyfodol, erys Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i atgyfnerthu cymorth i blant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches. Byddwn yn ystyried sut y gallai elfennau amrywiol cynllun gwarcheidiaeth ategu a gwella cyfrifoldebau statudol sy'n bodoli eisoes ledled Cymru, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael eiriolaeth ddynodedig, parhad gofal, a chymorth holistaidd sydd wedi'i deilwra at ei anghenion unigol.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ymgysylltu'n agos â Phapur Gwyn Llywodraeth y DU ar fewnfudo, “Restoring Control over the Immigration System", er mwyn sicrhau bod diwygiadau arfaethedig yn adlewyrchu hawliau ac anghenion plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches yng Nghymru yn llawn. Wrth i gynigion ynghylch llwybrau ymgartrefu, cyfnodau cymhwyso a newidiadau ehangach i'r system ddatblygu, gan gynnwys cyflwyno technoleg Amcangyfrif Oedran Wynebau o fewn prosesau asesu oedran, byddwn yn gweithio i asesu eu goblygiadau ac yn hyrwyddo dulliau sy'n gyson â'n dyletswyddau statudol, egwyddorion diogelu, a hawliau plant.

Er bod yr ymgynghoriad dilynol, “A Fairer Pathway to Settlement", yn dangos bwriad i gynnal gweithgarwch ymgysylltu wedi'i dargedu ar lwybrau i blant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, byddwn yn parhau i ganolbwyntio'n glir ar ddylanwadu ar ymrwymiadau cyffredinol y Papur Gwyn wrth iddynt gael eu troi'n ddeddfwriaeth a pholisi. Drwy weithio mewn partneriaeth barhaus, casglu tystiolaeth, a nodi risgiau'n gynnar, byddwn yn parhau i geisio sicrwydd y bydd unrhyw fframweithiau ymgartrefu ac asesu oedran yn y dyfodol yn seiliedig ar dystiolaeth, yn gadarn yn foesegol, ac yn diogelu urddas, preifatrwydd, lles a sicrwydd hirdymor y bobl ifanc agored i niwed hyn yn llawn.

Yn anad dim, bydd Llywodraeth Cymru yn parhau'n ymrwymedig i gynnal hawliau a lles plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, gan sicrhau bod eu buddiannau'n cael eu cynrychioli'n glir drwy ein cyfraniad parhaus at Dasglu Plant Ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches Llywodraeth y DU a'n gwaith ehangach i ddylanwadu ar ddatblygiadau polisi yn unol â'n cyfrifoldebau datganoledig.

Fel y cadarnhaodd y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, Dawn Bowden:

*“Rydym am weld Cymru lle mae pob plentyn yn gwybod bod ganddo hawliau, yn deall yr hyn y maent yn ei olygu, ac yn cael cymorth i'w harfer. Mae'r hyn sydd gan bobl ifanc i'w ddweud, a'u barn, yn bwysig.”*

Bydd yr ymrwymiad parhaus hwn i dosturi, cydweithio a gofal sy'n canolbwyntio ar y plentyn yn parhau i lywio'r ffordd y mae Cymru yn croesawu ac yn cefnogi plant ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches, gan sicrhau eu bod yn cael pob cyfle i ffynnu.

| Ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu | Maethu Cymru – Atgyfnerthu Maethu Cyhoeddus yng Nghymru |
|---|---|

**Cefndir**

Bu tymor 2021-2026 y Senedd yn gyfnod pwysig i ofal cymdeithasol plant yng Nghymru, ac rydym wedi gweld diwygiadau beiddgar ac uchelgais o'r newydd. Mae Maethu Cymru, sef y rhwydwaith cenedlaethol o 22 o wasanaethau maethu awdurdodau lleol, a lansiwyd ym mis Gorffennaf 2021 i uno ac atgyfnerthu'r ddarpariaeth maethu gyhoeddus wrth wraidd y trawsnewidiad hwn. Ei genhadaeth yw sicrhau bod plant mewn gofal yn cael eu cefnogi yn eu cymunedau gan ofalwyr sy'n rhan o system nid-er-elw sy'n atebol yn lleol. Mae'r gwaith hwn yn adeiladu ar y sylfeini a osodwyd gan y Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn ystod tymor y Senedd flaenorol, a nododd weledigaeth ar gyfer ymagwedd fwy cyson a chydweithredol sy'n canolbwyntio ar y plentyn at faethu ledled Cymru.



*"Ni ddylai'r un plentyn yng Nghymru fod heb gartref na rhywun i ofalu amdano ... rwy'n annog unrhyw un a all wneud hynny i agor drysau ei gartref er mwyn i'r plant hynny y mae angen ein help arnynt gael plentyndod hapusach a thyfu'n bobl y maent am fod."* - **Julie Morgan, y cyn-Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol, yn ystod lansiad ymgyrch Drws Agored Maethu Cymru**

Mae Maethu Cymru wedi gweithio'n agos gyda Rhaglen Trawsnewid Gofal Plant Llywodraeth Cymru, sy'n anelu at ail-lunio'r system gofal drwy ymarfer sy'n ystyriol o drawma ac yn seiliedig ar gydberthnasau. Wrth wraidd y weledigaeth hon y mae'r ymrwymiad i ddileu elw preifat o ofal plant sy'n derbyn gofal – nod y mae Maethu Cymru wedi mynd ati i'w hyrwyddo drwy gynnig dewis amgen cyhoeddus cadarn yn lle asiantaethau maethu er-elw.




<u>Buddsoddiad Llywodraeth Cymru</u>

Drwy gydol tymor 2021-2026 y Senedd, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cymorth ariannol sylweddol i Maethu Cymru, gan fuddsoddi dros £9.1 miliwn i atgyfnerthu'r ddarpariaeth maethu gyhoeddus ledled Cymru. Mae'r cyllid hwn wedi helpu i ddatblygu'r seilwaith cenedlaethol, brandio, ymgyrchoedd recriwtio, a mentrau strategol y bwriedir iddynt newid pwyslais gofal maethu o fodelau sy'n canolbwyntio ar elw. Mae'r buddsoddiad yn dangos ymrwymiad a rennir i greu system maethu gyson a moesegol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, ac mae'n gosod y sylfeini ar gyfer cydweithio a chynnydd parhaus dros y blynyddoedd i ddod.

**Cyflawniadau Allweddol**

<u>Sefydlu Hunaniaeth Genedlaethol</u>

Cyn 2021, roedd gwasanaethau maethu yn gweithredu'n annibynnol ledled Cymru. Drwy greu Maethu Cymru, daethpwyd â'r gwasanaethau hyn ynghyd o dan frand unedig a diben a rennir. Roedd yr hunaniaeth genedlaethol hon yn golygu bod modd sicrhau negeseuon cyson, symleiddio prosesau recriwtio, a meithrin ymdeimlad cryfach o gymuned ymhlith gofalwyr. Cynyddodd ymwybyddiaeth y cyhoedd yn sylweddol o ddim ond 6% pan gafodd ei lansio, i 23% erbyn 2025, gan ddangos llwyddiant allgymorth ac ymgyrchoedd cydgysylltiedig.

<u>Recriwtio a Chadw</u>

Mae Maethu Cymru wedi gwneud cynnydd amlwg o ran denu a chadw gofalwyr maeth:

- Cynyddodd ymholiadau o 1,444 yn 2021 i 1,906 yn 2024/25.
- Cynyddodd nifer yr asesiadau a ddyrannwyd o 206 i 271.
- Cynyddodd nifer y gofalwyr prif ffrwd a gymeradwywyd o 113 i 151.
- Lleihaodd nifer y gofalwyr a gollwyd o 69 i 16, gan ddangos cyfraddau cadw gwell.

Mae'r ffigurau hyn yn dangos diddordeb cynyddol ymhlith y cyhoedd a chymorth gwell i ofalwyr, gan fynd i'r afael â heriau recriwtio a oedd yn bodoli ers tro.

Annog Arloesedd

Mae Maethu Cymru wedi cyflwyno nifer o fentrau sydd wedi ail-lunio'r profiad maethu:

- **Yr Ymrwymiad Cenedlaethol**: Darpariaeth graidd gyson i bob gofalwr maeth, gan gynnwys gofalwyr sy'n berthnasau, gan sicrhau cydnabyddiaeth a chymorth teg.
- **Big Welcome**: Adnodd digidol sy'n galluogi plant i weld proffiliau gofalwyr cyn iddynt gael eu lleoli, gan hwyluso'r broses bontio a meithrin ymddiriedaeth.
- **Ymgyrchoedd Llwyddiannus:** Heriodd "Bring Something to the Table" stereoteipiau ac enillodd y wobr am yr Ymgyrch Sector Cyhoeddus Orau yng Ngwobrau CIPR.
- **Ap Care Friends**: Adnodd recriwtio arloesol sy'n gwobrwyo gofalwyr am atgyfeiriadau.
- **Fframwaith Dysgu a Datblygu**: Mae adnoddau hyfforddiant cenedlaethol wedi rhoi hyder a sgiliau i ofalwyr.
- **Rhaglen Maethu Lles**: Ehangu rhwydweithiau cymorth emosiynol a mentora gan gymheiriaid ledled Cymru.

Adolygu Lwfansau Gofalwyr Maeth

Yn ystod tymor y Senedd hon, mae Llywodraeth Cymru, gan weithio mewn partneriaeth â Maethu Cymru, wedi dechrau adolygu lwfansau gofalwyr maeth er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu gwir gost darparu gofal yn fwy cywir. Mae'r fenter ar y cyd hon yn cynrychioli cam sylweddol tuag at gydnabod realiti ariannol gofalwyr a sicrhau bod cymorth yn deg ac yn gynaliadwy. Er bod yr Ymrwymiad Cenedlaethol wedi dechrau mynd i'r afael â chysondeb ledled Cymru, mae'r adolygiad hwn yn nodi dechrau taith hwy – lle bydd angen cydweithio'n barhaus, ymgysylltu â gofalwyr, a mireinio ar sail tystiolaeth. Gyda'i gilydd, mae Llywodraeth Cymru a Maethu Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu fframwaith ariannol sy'n gwerthfawrogi gofalwyr yn briodol ac yn cefnogi sefydlogrwydd ac ansawdd hirdymor lleoliadau maethu.

**Cyfleoedd ar gyfer y Dyfodol**

Diwygio Systemig

Mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i ddileu elw o ofal plant yn cynnig cyfle trawsnewidiol. Mae Maethu Cymru, sy'n seiliedig ar werthoedd awdurdodau lleol, mewn sefyllfa dda i arwain y newid hwn tuag at fodel cymunedol mwy moesegol.

Arloesedd Digidol

Mae adnoddau fel Big Welcome a Care Friends wedi dangos potensial technoleg i wella'r daith maethu. Gall ehangu datrysiadau digidol wella profiadau o leoliadau a phrosesau recriwtio ymhellach.

Datblygu'r Gweithlu

Bydd parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant a chymorth i ofalwyr maeth yn gwella eu sgiliau, yn meithrin hyder, ac yn gwella canlyniadau i blant. Bydd hefyd yn helpu i ddenu gofalwyr newydd sy'n teimlo bod maethu yn rôl sy'n cael ei gwerthfawrogi a'i chefnogi'n dda o fewn y system gofal.

Ymgysylltu â'r Cyhoedd

Wrth i ymwybyddiaeth y cyhoedd gynyddu, mae gan Maethu Cymru lwyfan cadarn i ymgysylltu'n ddyfnach â chymunedau, herio camsyniadau, a recriwtio gofalwyr sy'n adlewyrchu amrywiaeth plant mewn gofal.

Risgiau a Heriau

Er gwaethaf cynnydd, mae nifer o heriau yn parhau:

- **Bylchau o ran Recriwtio**: Mae'r galw am ofalwyr yn fwy na'r cyflenwad, yn enwedig mewn perthynas â gofalwyr ar gyfer grwpiau o frodyr a chwiorydd, pobl ifanc yn eu harddegau, a phlant ag anghenion cymhleth.
- **Pwysau Ariannol**: Gall yr argyfwng costau byw ac anghysondebau rhanbarthol o ran lwfansau atal darpar ofalwyr.
- **Camsyniadau'r Cyhoedd**: Mae mythau cyson ynglŷn â phwy all faethu yn cyfyngu ar y gallu i recriwtio.
- **Sefydlogrwydd Lleoliadau:** Mae lleoliadau sy'n dod i ben yn annisgwyl yn effeithio ar lesiant y plant.
- **Amrywiadau Rhanbarthol**: Gall gwahaniaethau o ran arferion awdurdodau lleol arwain at brofiadau anghyson.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn, bydd angen buddsoddi'n barhaus, cymryd camau strategol, a chydweithio'n barhaus.

**Y Camau Nesaf**

Wrth i Maethu Cymru symud ymlaen i'r cam nesaf, rhaid i'r pwyslais newid o gyfuno i dyfu, arloesi, ac ymgysylltu'n ddyfnach. Dylai'r blaenoriaethau strategol canlynol lywio ei ddatblygiad yn y dyfodol:

- **Parhau i ddatblygu'r gymuned o ofalwyr maeth awdurdodau lleol**, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddatblygu modelau gofal i ddiwallu anghenion amrywiol plant a phobl ifanc y mae angen lleoliadau gofal maeth arnynt.
- **Ymgorffori a chryfhau'r Ymrwymiad Cenedlaethol yn gyson ledled Cymru**, gan sicrhau ei fod yn parhau i ymateb i anghenion newidiol gofalwyr a phlant er mwyn cefnogi eu llesiant.

- **Atgyfnerthu cyfleoedd dysgu a datblygu**, gan helpu gofalwyr i deimlo eu bod wedi'u cysylltu, eu bod yn cael eu cefnogi, a'u bod yn gadarn yn eu rôl.
- **Parhau i ddefnyddio adnoddau digidol** i recriwtio gofalwyr maeth a helpu i leoli plant a phobl ifanc, gan ehangu hyn pan fydd cyfleoedd yn codi.
- **Gwella dulliau casglu a gwerthuso data**, gan alluogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n gwella polisi, ymarfer, a chanlyniadau.

Mae Maethu Cymru wedi dangos yr hyn sy'n bosibl pan fydd gwasanaethau'n cydweithio, yn arloesi ac yn rhoi plant wrth wraidd eu cenhadaeth. Mae'r hyn a gyflawnwyd yn ystod tymor y Senedd hon – ffigurau recriwtio uwch, cyfraddau cadw gwell, cysondeb cenedlaethol, ac ymgyrchoedd llwyddiannus – yn deillio o ymroddiad gofalwyr, timau lleol, ac arweinwyr cenedlaethol.

Drwy fuddsoddi ac arloesi'n barhaus, gall Maethu Cymru adeiladu ar yr etifeddiaeth hon, gan sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru nid yn unig yn cael gofal, ond ei fod wir yn teimlo fod rhywun yn gofalu amdano.

## Y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol – Degawd o Gynnydd, Tymor o Drawsnewid

### Cefndir

Bu tymor y Chweched Senedd yn bennod dyngedfennol yn natblygiad gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru. Wedi'i arwain gan weledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer system gofal cymdeithasol fwy tosturiol sy'n canolbwyntio ar y plentyn, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi cynnal rhaglen o waith trawsnewid sy'n rhoi hunaniaeth, cysylltiad, a chymorth gydol oes wrth wraidd mabwysiadu.

Ar ddechau tymor y Senedd hon, roedd sylfeini'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn gadarn, gan ei fod eisoes wedi sefydlu ei hun fel gwasanaeth cydweithredol wedi'i gydgysylltu'n genedlaethol. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae wedi cyflymu ei effaith, gan foderneiddio arferion, dyfnhau cymorth, a rhoi mwy o lais i'r rhai â phrofiadau bywyd.

O ddatblygu llwyfannau digidol arloesol i ymgorffori modelau gofal therapiwtig, mae'r gwasanaeth wedi ailddiffinio'r broses fabwysiadu yng Nghymru. Nid dim ond proses gyfreithiol mohoni mwyach, ond taith gydol oes a gefnogir gan gymuned o weithwyr proffesiynol, teuluoedd a phobl ifanc.

### Cyflawniadau Allweddol

Canlyniadau Mabwysiadu Gwell

Er gwaethaf newidiadau ehangach i wasanaethau plant sydd â'r nod o gadw teuluoedd gyda'i gilydd, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi parhau i sicrhau lleoliadau amserol a phriodol i blant y mae angen eu mabwysiadu:

- Cafodd bron 1,000 o blant eu mabwysiadu yn ystod y tymor.
- Lleihaodd amseroedd lleoli o 12.8 mis i 9.5 mis, gan adlewyrchu gwell effeithlonrwydd a chynllunio sy'n canolbwyntio ar y plentyn.
- Ers ei greu ym mis Mehefin 2018, mae cynllun Mabwysiadu Gyda'n Gilydd wedi lleoli 30 o blant, gan gynnwys rhai ag anghenion cymhleth a grwpiau o frodyr a chwiorydd, gan ddefnyddio model therapiwtig.

Buddsoddiad Strategol ac Arloesedd

Roedd trawsnewidiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn seiliedig ar fuddsoddiad strategol gan Lywodraeth Cymru:

- Cafodd cynllun Adopt Cymru 2025 ei gefnogi gan £2.3 miliwn o gyllid craidd blynyddol a £2.33 miliwn o gyllid ychwanegol dros gyfnod o dair blynedd.
- Gosododd yr Ymrwymiad Cymorth Mabwysiadu, a lansiwyd yn 2022, safon newydd ar gyfer cymorth gydol oes.

- Drwy'r Gofrestr Mabwysiadu Genedlaethol ac ap y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, cafodd prosesau rheoli data a gallu gweithwyr proffesiynol i gael gafael ar ganllawiau eu gwella.

Marchnata a Recriwtio
Ail-luniodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ganfyddiadau'r cyhoedd o fabwysiadu drwy ymgyrchoedd cynhwysol beiddgar:

- Enillodd yr ymgyrch **Dewis Teulu** wobrau cenedlaethol, ac ynghyd ag ymgyrch **Mae Nawr yn Amser Da**, llwyddodd i gynyddu lefelau ymgysylltu.
- Rhoddodd cyfres podlediad **Dweud y Gwir yn Blaen** lais i straeon mabwysiadu go iawn, gan gynnwys pennod wedi'i harwain gan bobl ifanc.
- Dangosodd data arolwg fod 83% o bobl yng Nghymru o'r farn bod mabwysiadu yn rhywbeth cadarnhaol, a bod ymwybyddiaeth gynyddol o'r angen am ofal sy'n ystyriol o drawma.

Cymorth Mabwysiadu
Mae cymorth i deuluoedd wedi ehangu'n sylweddol:

- Ers dechrau 2022, mae 788 o asesiadau cymorth mabwysiadu newydd wedi cael eu cynnal ledled Cymru (ffigurau hyd at fis Mehefin 2025), ac mae nifer y plant sy'n aros am asesiad wedi lleihau'n gyson.
- Ar ddiwedd 2024/25, roedd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn cefnogi dros 1,600 o drefniadau cymorth mabwysiadu gweithredol, wedi'u darparu drwy asesiadau ffurfiol a threfniadau anffurfiol drwy lwybrau a gwasanaethau cysylltiedig.
- Cynigiodd hybiau rhanbarthol a mentrau wedi'u harwain gan gymheiriaid gymorth hygyrch wedi'i deilwra.
- Darparwyd gwasanaethau am gost gystadleuol – llai na £3k y teulu.

Hunaniaeth a Chysylltiad Gydol Oes
Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi blaenoriaethu hunaniaeth a chysylltiad fel elfennau canolog mewn perthynas â mabwysiadu:

- Mae dros 4,000 o blant wedi cael eu cefnogi i gadw mewn cysylltiad â'u teuluoedd geni drwy drefniadau uniongyrchol ac anuniongyrchol.
- Mae Gwaith Taith Bywyd wedi'i ymgorffori'n genedlaethol, ac mae 75% o blant yn cael deunyddiau erbyn cam y panel paru.
- Mae canllawiau a phecynnau cymorth newydd wedi helpu gweithwyr proffesiynol i asesu a chefnogi trefniadau cyswllt.

Sefydlogrwydd Cynnar
Mae Fframwaith Sefydlogrwydd Cynnar Cymru wedi newid y dirwedd o ran cynllunio gofal:

- Galluogwyd 15+ o leoliadau gyda gofalwyr â chymeradwyaeth ddeuol.
- Bu llai o achosion o newid lleoliad a chefnogwyd sefydlogrwydd emosiynol.
- Ymgorfforwyd egwyddorion sefydlogrwydd cynnar mewn hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a'r farnwriaeth.

Cymorth yn y Gweithle

Gan gydnabod rôl cyflogwr wrth gefnogi mabwysiadwyr:

- Lansiwyd y pecyn cymorth i gyflogwyr Mabwysiadu yn eich Busnes yn 2023.
- Wedi'i gefnogi gan Lywodraeth Cymru a chyflogwyr mawr, mae'n cynnig canllawiau ymarferol ar gymorth yn y gweithle.

Moderneiddio Polisi ac Arferion

Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi arwain y ffordd o ran moderneiddio arferion mabwysiadu:

- Mae polisïau a gweithdrefnau ar gyfer Cymru gyfan bellach ar gael drwy wefan ac ap y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol.
- Datblygwyd Canllawiau Arfer Da ar gyfer meysydd allweddol, gan gynnwys ymgysylltu â rhieni geni, cyswllt, prosesau pontio, a chymorth mabwysiadu. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddwyd canllawiau ar ddod o hyd i deulu a chreu teuluoedd newydd.
- Cefnogwyd datblygiad proffesiynol drwy ganllawiau a modiwlau e-ddysgu ar ddiogelu.

Llywodraethu a Seilwaith

Yn 2023, atgyfnerthodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ei fodel llywodraethu:

- Ymrwymodd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol i gytundeb Cydbwyllgor newydd.
- Cafodd trefniadau goruchwylio ac atebolrwydd eu gwella drwy gamau integreiddio â Maethu Cymru drwy Dîm Canolog cyfunol a fframweithiau perfformiad cenedlaethol.
- Aeth Cyngor Caerdydd ati i ffurfioli trefniadau lletya, a chyhoeddwyd Protocol Rhannu Gwybodaeth diwygiedig.

Cydgynhyrchu ac Ymgysylltu â Phobl Ifanc

Mae pobl ifanc a theuluoedd wedi llywio taith y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol:

- Lansiwyd Cynghorau Ieuenctid Mabwysiadu, gwasanaethau cysylltiedig ledled Cymru a llwyfan Connect Cymru.
- Ysgogodd digwyddiadau blynyddol Y Sgwrs Fawr ar Fabwysiadu ddeialog ac arloesedd.
- Mae llysgenhadon y Cynghorau Ieuenctid bellach yn rhan o fwrdd llywodraethu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol, gan sicrhau bod profiadau bywyd yn llywio penderfyniadau.

*“Rwyf wir yn credu y dylai eich lleisiau a'r hyn rydym yn ei ddysgu o'ch profiadau o fabwysiadu fod wrth wraidd popeth a wnawn.”*

— Julie Morgan, y cyn-Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol





**Cydnabod y Gorffennol**

Yn 2023, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymddiheuriad ffurfiol am arferion mabwysiadu gorfodol hanesyddol. Ymatebodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol â thosturi a rhoddwyd camau gweithredu ar waith:

- Lansiwyd y Gwasanaeth Cyfryngu a Chofnodion Geni Cyn-1976.
- Cyd-gynhyrchwyd canllawiau a chymorth i'r rhai sydd am gael gafael ar gofnodion.
- Mae is-grŵp cenedlaethol bellach yn goruchwylio gwelliannau i'r broses o gael gafael ar gofnodion a gofal sy'n ystyriol o drawma.

*"I bob dioddefwr... mae'n destun gofid mawr imi eich bod chi wedi gorfod profi'r arferion arswydus hyn.  Rwy'n wirioneddol edifar am hyn."*
**Julie Morgan, y cyn-Ddirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Dathlu 10 mlynedd ers sefydlu'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol**

Yn 2024/25, dathlodd y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ddeng mlynedd ers ei sefydlu:

- Mae dros 3,100 o blant wedi cael eu mabwysiadu gan 2,500 o deuluoedd ers hynny.
- Nodwyd y garreg filltir hon gan ddigwyddiadau a datganiadau gan Weinidogion, ac ailbwysleisiwyd ymrwymiad y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol i sicrhau rhagoriaeth.

*"Yr ymrwymiad ar y cyd hwnnw i sicrhau rhagoriaeth sydd wedi gwneud y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol yn llwyddiant."*
**Dawn Bowden, y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol**



**Y Camau Nesaf**

Mae etifeddiaeth tymor y Senedd hon yn un o drawsnewid, gwydnwch, a thosturi. Mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi gosod y sylfeini ar gyfer cynnydd parhaus, ac mae'r blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol yn cynnwys:

- Ehangu cymorth ar gyfer pobl ifanc hŷn sydd wedi'u mabwysiadu.
- Gwella trefniadau cyswllt a'r gallu i gael gafael ar gofnodion.
- Gwella prosesau recriwtio a hyfforddiant ar gyfer mabwysiadwyr.
- Ailsefydlu mabwysiadu fel opsiwn ar gyfer sefydlogrwydd cadarnhaol.

Mae'r camau i drawsnewid gwasanaethau mabwysiadu yng Nghymru yn ystod tymor y Chweched Senedd yn dangos yr hyn y gellir ei gyflawni drwy arweinyddiaeth strategol, cydgynhyrchu, ac ymrwymiad i lesiant plant. Yn ogystal â sicrhau newid, mae'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol wedi creu etifeddiaeth o obaith, cysylltiad, a chymorth gydol oes.

## Gofal gan Berthynas – Datblygu Trefniadau o fewn y Teulu yn hytrach na throi at y System Gofal

Yn ystod tymor y Chweched Senedd, gwnaeth Llywodraeth Cymru benderfyniad bwriadol a strategol i newid y ffordd y caiff gofal gan berthynas ei ddeall a'i gefnogi. Gan fynd yn groes i'r arfer o'i drin fel mater ymylol, cafodd gofal gan berthynas ei gynnwys fel rhan greiddiol o'r rhaglen trawsnewid gwasanaethau plant. Roedd hyn yn seiliedig ar weledigaeth glir: "*y cartref cywir, ar gyfer y plentyn cywir, ar yr adeg gywir, gyda'r cymorth cywir.*"

Mae gofalwyr sy'n berthnasau – neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd, neu aelodau estynedig o'r teulu yn aml – yn camu i'r adwy yn ystod argyfyngau er mwyn cynnig sefydlogrwydd, cynefindra, a chariad i blant. Ond ers gormod o amser, roeddent yn rhan anweladwy o'r system gofal.

Cydnabu Gweinidogion yn gyhoeddus y nifer cynyddol o blant a oedd yn cael gofal gan berthynas, a gwnaethant ymrwymo i sicrhau bod cymorth yn seiliedig ar anghenion y plentyn a rôl y gofalwr, nid ei statws cyfreithiol. Cafodd y newid diwylliannol hwn ei adlewyrchu mewn polisi, cyllid, a phrosesau datblygu ymarfer.

Cydnabyddir bod gofal gan berthynas yn elfen hanfodol a gwerthfawr o'r system gofal. Yn hytrach na bod yn opsiwn eilaidd, mae'n elfen ganolog wrth ddarparu cartrefi diogel a sefydlog i blant.

### Cefndir

Mae gofal gan berthynas wedi dod yn rhan gynyddol bwysig o'r dirwedd gofal yng Nghymru. Mae teuluoedd sy'n camu i'r adwy i ofalu am blant yn aml yn gwneud hynny heb gyfle i baratoi, cymorth, na chydnabyddiaeth. Ymatebodd Llywodraeth Cymru drwy gynnwys gofal gan berthynas fel rhan o'i hagenda diwygio ehangach, gan sicrhau nad oedd y gofalwyr hyn yn cael eu hanwybyddu mwyach a'u bod, yn lle hynny, yn cael eu cydnabod fel partneriaid hanfodol wrth ddarparu cartrefi diogel, sefydlog a chariadus.

Nid mater o newid polisi yn unig oedd hyn; roedd yn fater o newid y naratif. Cafodd gofalwyr sy'n berthnasau eu gosod wrth wraidd ymdrechion i greu system gofal fwy tosturiol ac integredig sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

### Y cynllun gweithredu a'r trefniadau llywodraethu i gefnogi'r broses gyflawni:

Cafodd y trefniadau llywodraethu a chyflawni eu cefnogi drwy'r canlynol:

- Integreiddio gofal gan berthynas i mewn i Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru, gan sicrhau tegwch ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol.
- Camau goruchwylio gan y Tîm Gwella Canlyniadau i Blant yn Llywodraeth Cymru.

- Cydweithio strategol ag AFKA Cymru, a arweiniodd Grŵp Diddordeb Arbennig Gofal gan Berthynas a Gwarcheidiaeth Arbennig – fforwm cenedlaethol i lywio polisi ac ymarfer.
- Cynnwys gofal gan berthynas mewn ymgyngoriadau cenedlaethol, diwygiadau rheoliadol, a grwpiau cynghori.

<u>Camau a gymerwyd tuag at gyflawni'r ymrwymiad:</u>

- Fel rhan o'r diwygiadau rheoliadol, cyflwynwyd categori penodol i ofalwyr maeth sy'n berthnasau, ynghyd â meini prawf asesu wedi'u teilwra a phrosesau cynllunio gofal hyblyg.
- Cafodd gofalwyr sy'n berthnasau eu cynnwys yn Ymrwymiad Cenedlaethol Maethu Cymru, gan olygu bod hyfforddiant a chymorth gan gymheiriaid ar gael iddynt a'u bod yn cael eu cydnabod.
- Datblygwyd hyfforddiant paratoi/hyfforddiant ar sefydlogrwydd i ofalwyr sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig, a oedd yn rhoi gwybodaeth a chyngor am gyswllt â'r teulu geni a gwaith taith bywyd er mwyn sicrhau bod lleoliadau'n arwain at ganlyniadau gwell.
- Lansiwyd adolygiad cynhwysfawr o lwfansau maethu er mwyn sicrhau tegwch ariannol.
- Cafodd Templed o Gynllun Cymorth Gwarcheidiaeth Arbennig ei ddatblygu a chynigiwyd y dylid ei ddefnyddio ar sail statudol, gan sicrhau cysondeb ledled Cymru.
- Dosbarthwyd cardiau gwybodaeth maint waled ar gyfer gwarcheidwaid arbennig, gan rymuso gofalwyr i esbonio eu rôl gyfreithiol i weithwyr proffesiynol.
- Datblygwyd hyfforddiant ar-lein i weithwyr addysg proffesiynol er mwyn gwella ymwybyddiaeth o blant sy'n destun trefniadau gwarcheidiaeth arbennig a chymorth ar eu cyfer.
- Datblygwyd protocol trosglwyddo newydd i ofalwyr maeth sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig er mwyn helpu i hwyluso'r broses o symud i ardaloedd awdurdodau lleol newydd.

<u>Enghreifftiau o gydweithio:</u>

- Llunio templedi ar gyfer cynlluniau cymorth a chanllawiau ymarfer ar y cyd ag AFKA Cymru ac ymarferwyr mewn awdurdodau lleol.
- Cyflwyno hyfforddiant paratoi i ofalwyr sy'n berthnasau yn genedlaethol, yn ymdrin â thrawma, ymlyniad, cyswllt, a phrosesau cyfreithiol.
- Datblygu nodiadau ymarfer a chanllawiau arfer da i weithwyr cymdeithasol a gofalwyr.
- Ymgysylltu â gweithwyr addysg proffesiynol i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o blant sy'n destun trefniadau gofal gan berthynas a gwarcheidiaeth arbennig.

**Y Camau Nesaf**

Er bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud, mae heriau o hyd, yn enwedig i ofalwyr sy'n berthnasau anffurfiol a'r rhai sy'n gweithredu o dan Orchmynion Gwarcheidiaeth

Arbennig. Mae llawer yn wynebu anghysondeb o hyd wrth gael gafael ar gymorth, yn ogystal â hawliadau statudol cyfyngedig.

Rhaid i gam nesaf y diwygio ganolbwyntio ar y canlynol:

- Cynnal adolygiad cynhwysfawr o'r hawliadau presennol ar draws yr holl drefniadau gofal gan berthynas er mwyn nodi bylchau ac archwilio opsiynau deddfwriaethol a pholisi ar gyfer ymestyn cymorth statudol i ofalwyr anffurfiol a'r rhai sy'n gweithredu o dan Orchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig.
- Sicrhau bod cymorth ariannol ac ymarferol yn deg ac ar gael ledled Cymru.
- Parhau i fuddsoddi mewn hyfforddiant, rhwydweithiau cymheiriaid, a gwasanaethau therapiwtig.
- Monitro'r broses weithredu a chasglu adborth er mwyn llywio polisi yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i weithio gyda Chomisiwn y Gyfraith ar ei brosiect Gofal gan Berthynas. Fel rhan o'r cydweithio hwn, byddant yn ystyried opsiynau deddfwriaethol i atgyfnerthu'r fframwaith cyfreithiol mewn perthynas â gofal gan berthynas yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn yn nodi cam sylweddol tuag at gysoni diwygiadau polisi â datblygiadau deddfwriaethol.

Bydd y bartneriaeth hon â Chomisiwn y Gyfraith yn helpu i sicrhau bod diwygiadau yn y dyfodol yn seiliedig ar ddadansoddiad cyfreithiol cadarn ac yn adlewyrchu profiadau bywyd gofalwyr sy'n berthnasau ledled Cymru.

# Casgliad ac argymhellion

I gloi, mae'r adroddiad hwn yn tynnu sylw at ehangder y camau sydd wedi'u cymryd dros dymor y Chweched Senedd. Mae camau cadarnhaol wedi'u cymryd ac mae'r gwaith a wnaed yn ystod tymor y Senedd hon wedi adeiladu ar argymhellion Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar y Rhaglen Gwella Canlyniadau i Blant a'i adroddiad etifeddiaeth.

Mae'r Rhaglen Trawsnewid wedi bod yn uchelgeisiol ac yn bellgyrhaeddol, ac wedi cynnwys prosiectau byrdymor, tymor canolig a hirdymor a ddyluniwyd i lywio'r dirwedd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol plant yn y dyfodol. Fel y dywedwyd eisoes yn yr adroddiad hwn, mae'r daith yn parhau. Mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid, y mae ei aelodaeth yn cynnwys pobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal, wedi ystyried y cynnydd a wnaed yn ofalus ac wedi datblygu'r gyfres ganlynol o argymhellion ar gyfer y Senedd nesaf, gyda'r nod o adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y tymor hwn:

**Argymhelliad 1: Rhianta Corfforaethol**

Yn ystod tymor y Senedd nesaf, dylid datblygu'r Siarter Rhianta Corfforaethol er mwyn sicrhau bod pob sefydliad/gwasanaeth yn y sector cyhoeddus wedi ymrwymo i'r Siarter, a bod y Siarter yn parhau i gael ei hyrwyddo ymysg y trydydd sector a'r sector preifat.

Dylid ystyried y dulliau mwyaf effeithiol o sicrhau'r canlynol:

- bod sefydliadau/gwasanaethau allweddol yn y sector cyhoeddus yn cyflawni eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol mewn ffordd gyson.
- bod cymorth effeithiol ar gael i alluogi sefydliadau sy'n ymrwymo i'r Siarter i gyflawni eu haddewidion, a bod trefniadau monitro effeithiol ar waith i sicrhau bod yr addewidion yn cael eu cyflawni.
- bod prosesau effeithiol ar waith i weithredu mewn ffordd gyson wrth sicrhau y caiff lleisiau plant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal eu clywed ac y gweithredir ar eu safbwyntiau pan fydd sefydliadau/gwasanaethau allweddol yn y sector cyhoeddus yn gwneud penderfyniadau rhianta corfforaethol.

**Argymhelliad 2: Cymorth i Blant ar eu Pen eu Hunain sy'n Ceisio Lloches**

Gan adeiladu ar y gwaith a amlinellwyd yn adroddiad etifeddiaeth y Chweched Senedd, ystyried pa becynnau cymorth eraill y gellir eu cyflwyno i gefnogi plant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain sy'n ceisio lloches er mwyn helpu i ddiogelu statws Cymru fel Cenedl Noddfa. Dylai'r pecynnau cymorth hyn fod yn gyson ledled Cymru a dylid darparu adnoddau digonol ar eu cyfer.

**Argymhelliad 3: Dileu Elw o Ofal**

Sicrhau bod cynlluniau clir i helpu awdurdodau lleol i ddatblygu gwasanaethau i blant sy'n bodloni'r gofynion deddfwriaethol 'nid-er-elw'. Mae hyn yn cynnwys cefnogi modelau gofal newydd, nodi strategaeth glir ar gyfer y gweithlu, a helpu darparwyr sy'n gwneud elw i sefydlu eu hunain fel sefydliadau nid-er-elw. Sicrhau bod y

ddeddfwriaeth yn cael ei rhoi ar waith ar amser a'i bod yn cael ei monitro'n agos. Darparu digon o adnoddau i gefnogi'r broses gyflawni a gwella gwerth am arian drwy greu marchnad fwy sefydlog, lleihau anwadalrwydd prisiau, a chryfhau'r cyswllt rhwng cost, ansawdd a chanlyniadau.

**Argymhelliad 4: Fframwaith Cenedlaethol ar Ymarfer Amlasiantaethol ar gyfer Gwasanaethau Plant**

Fel rhan o'r broses o roi'r Fframwaith Amlasiantaethol ar waith a chan adeiladu ar y gwaith a wnaed mewn perthynas â Gweledigaeth 2030. Mae'r argymhellion yn cynnwys:

- sicrhau bod strwythurau llywodraethu effeithiol ar waith.
- casglu tystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda a'i rhannu fel ymarfer da.
- ystyried Fframwaith Atebolrwydd Ar y Cyd fel bod pob asiantaeth yn anelu at gyflawni'r un amcanion ac yn meddu ar yr un ddealltwriaeth, ac y bydd pob asiantaeth yn cael ei dwyn i gyfrif ar y cyd.
- nodi tri maes penodol i ganolbwyntio arnynt ac ystyried sut y gall gwaith amlasiantaethol atgyfnerthu meysydd megis iechyd a thai. Byddai'r gwaith hwn yn darparu templed i'w ddefnyddio gan wasanaethau.

**Argymhelliad 5: Cymorth i bobl ifanc sy'n gadael gofal hyd at 25 oed**

Cyflawni'r ymrwymiad i gynyddu mynediad at Gynghorwyr Personol i bob person ifanc sy'n gadael gofal hyd at 25 oed, adolygu rôl Cynghorwyr Personol a'r hyn sy'n ofynnol ganddynt fel bod hynny'n gyson â'r cymorth sydd ei angen ar bob person ifanc sy'n gadael gofal; ac adolygu'r canllawiau i ddarparwyr gofal cymdeithasol a thai ar newidiadau a gyflwynwyd drwy'r ddeddfwriaeth i bobl ifanc sy'n gadael gofal yng Nghymru.

**Argymhelliad 6: Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal**

Y Fframwaith Ymyrraeth Gynnar ac Atal yw'r cyntaf o'i fath yn y DU. Argymhellir y dylid gwneud gwaith i sicrhau bod y Fframwaith yn cael ei roi ar waith yn genedlaethol mewn modd amserol ac effeithiol. Gallai hyn gynnwys camau i gysoni'r Fframwaith â deddfwriaeth a strwythurau sy'n bodoli eisoes, ystyried canllawiau statudol newydd ar ymyrraeth gynnar ac atal i ymarferwyr, neu ddeddfwriaeth. Bydd angen trefniadau comisiynu cynaliadwy er mwyn ei roi ar waith yn effeithiol.

**Argymhelliad 7: Datganiad yr Uwchgynhadledd Diwygio Radical**

Yn ystod tymor y Senedd nesaf, dylid sicrhau bod Datganiad yr Uwchgynhadledd Diwygio Radical yn cael ei roi ar waith fel bod tystiolaeth o gamau gweithredu, a bod y weledigaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yn cael ei gwireddu:

- Dylai'r Gweinidogion newydd gyfarfod â phlant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal er mwyn clywed yr hyn sydd ei angen arnynt gan y Cabinet newydd a dechrau meithrin cydberthnasau ar gyfer tymor y Senedd newydd, gyda'r nod o sicrhau ymrwymiad y Gweinidogion newydd i'r Datganiad Diwygio Radical neu ddechrau'r broses o negodi un newydd

- Cynnal Arddangosiad Rhianta Corfforaethol yn ystod hydref 2026 i gyflwyno'r cysyniad o rianta corfforaethol i Aelodau newydd o'r Senedd a Gweinidogion y Llywodraeth.
- Dylai'r adolygiad o'r Cod Ymarfer Rhan 6 y bwriedir ei gynnal yn ystod tymor y Senedd nesaf ystyried y weledigaeth yn y Datganiad.
- Dylai meysydd polisi eraill ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru ystyried sut y gellir integreiddio'r Datganiad ymhellach mewn canllawiau a deddfwriaeth.

**Argymhelliad 8: Gweledigaeth ar gyfer Gwasanaethau Plant yng Nghymru**

Dylai'r Llywodraeth newydd gyhoeddi gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau plant yng Nghymru, yn rhychwantu taith gyfan plentyn a theulu gan gynnwys ymyrraeth gynnar ac atal drwy brosesau statudol a thu hwnt. Er mwyn helpu i gyflawni'r weledigaeth, dylid sefydlu Bwrdd Trosolwg Gweinidogol a Grŵp Cyflawni neu strwythurau tebyg.

**Argymhelliad 9: Cymorth ar gyfer Lleoliadau**

Er mwyn atgyfnerthu'r cymorth ar gyfer lleoliadau, dylid ystyried y canlynol:

- Gwir gost gofal maeth a thegwch i ofalwyr sy'n berthnasau a gwarcheidwaid arbennig drwy gymorth a chydnabyddiaeth.
- Dylid rhoi cymorth mabwysiadu gwell ar waith i atal lleoliadau rhag chwalu.
- Parhau â gwaith ehangach i gefnogi a hyrwyddo lleoliadau gofal gan berthynas.
- Parhau â gwaith i gynyddu nifer ac amrywiaeth gofalwyr maeth.

**Argymhelliad 10: Data a Metrigau**

Yn ystod tymor y Senedd nesaf, dylid datblygu'r metrigau perfformiad arfaethedig a ddatblygwyd gan yr is-grŵp Data a Metrigau yn adroddiad blynyddol a arweinir gan Lywodraeth Cymru, sy'n galluogi pob rhanddeiliad i ddeall y broses o ddarparu gofal cymdeithasol i blant a chraffu arni.

Wrth wneud yr argymhellion hyn, mae'r Grŵp Cyflawni Trawsnewid yn ymwybodol iawn fod llawer o feysydd polisi eraill sy'n cael effaith fawr ar blant a phobl ifanc â phrofiad o fod mewn gofal. Mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau eirioli, ymweliadau annibynnol, a diogelu, gan gynnwys cymorth i blant sy'n mynd ar goll. Nid oeddem o'r farn ei bod yn briodol gwneud argymhellion mewn perthynas â'r pynciau penodol hyn, ond hyderwn y bydd y Llywodraeth newydd yn sicrhau bod synergedd rhwng pob maes polisi sy'n effeithio ar y gymuned â phrofiad o fod mewn gofal ac y bydd y gwaith polisi i ddatblygu'r meysydd hyn yn parhau.

**Y GRŴP CYFLAWNI TRAWSNEWID**
**CHWEFROR 2026**